



Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Ymateb i ddinasyddion sydd mewn dyled i wasanaethau cyhoeddus

**Adolygiad cyflym o'r
dystiolaeth**

**Sharon Collard,
Helen Hodges a Paul Worthington**

Chwefror 2019



Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Sefydlwyd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ym mis Hydref 2017. Ei chenhadaeth yw gwella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus drwy helpu gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu tystiolaeth annibynnol gadarn ynghylch yr hyn sy'n gweithio.

Mae'r Ganolfan yn cydweithio ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi eraill er mwyn syntheseiddio a chrynhoi tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadaeth o'r newydd ynghlŷn â sut i fynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n gwneud y canlynol:

- Helpu Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i lywio a gwella polisi, yn ogystal â chael gafael ar dystiolaeth ac arbenigedd o'r fath a'u defnyddio;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gael gafael ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â heriau economaidd a chymdeithasol allweddol, yn ogystal â chynhyrchu, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth o'r fath;
- Defnyddio'i gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i wella dealltwriaeth o'r ffordd y gall tystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaeth llunio a gweithredu polisi.

Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaeth Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn gwella gallu ymchwilwyr i wneud ymchwil sy'n berthnasol i bolisi sy'n cael effaith.

Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan <https://www.wcpp.org.uk/cy/>

Arianwyr Craidd



Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** ym 1883. Wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, mae'r Brifysgol yn sefydliad uchelgeisiol ac arloesol sy'n awyddus i feithrin cydberthnasau rhyngwladol cryf a dangos ei hymrwymiad i Gymru.



Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o Ymchwil ac Arloesi yn y DU, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i sicrhau bod pob cyngor yn cyfrannu cymaint â phosibl ac i greu'r amgylchedd gorau ar gyfer datblygu ymchwil ac arloesi.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd

mae'n rhannu'r arian sydd mewn dyled i wasanaethau cyhoeddus

Cynnwys

Crynodeb	4
Cyflwyniad	5
Rhan 1: Pwy yw'r bobl sydd mewn dyled i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru?	8
Graddau ac achosion dyled	8
Proffil dyledion treth gyngor ac ôl-ddyledion rhent yng Nghymru	9
Nodweddion dinasyddion sydd mewn dyled i wasanaethau cyhoeddus	17
Profiad dinasyddion o ddyled i wasanaethau cyhoeddus	20
Rhan 2: Adolygiad o'r dystiolaeth	23
Dull cylch bywyd	23
Adnabod rhai sy'n agored i niwed	24
Helpu dyledwyr agored i niwed i ddeall a rheoli biliau	27
Atal dyledion rhag troi'n argyfwng	31
Helpu dyledwyr agored i niwed i dalu (os gallant)	34
Cynorthwyo dyledwyr agored i niwed sy'n wynebu camau gorfodi	40
Helpu dyledwyr agored i niwed i gadw rheolaeth ar eu rhwymedigaethau ar ôl cymryd camau gorfodi	45
Rhan 3: Casgliadau a chamau i'w hystyried	46
Cyfeiriadau	49
Atodiad 1: Y prosesau gorfodi treth gyngor ac adfeddiannu tai cymdeithasol	61
Atodiad 2: Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	63
Atodiad 3: Esempliadau rhag y dreth gyngor	65
Atodiad 4: Data am gyd-destun rhenti tai cymdeithasol yng Nghymru	69

Crynodeb

- Gofynnodd y Prif Weinidog i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru edrych ar y dystiolaeth ynghylch y cwestiwn *'Sut byddai gwasanaethau cyhoeddus a'u partneriaid dan gontractau yng Nghymru yn gallu ymateb yn well i ddyledwyr agored i niwed, yn enwedig y rheini sy'n cael eu herlyn a'u carcharu?'*
- Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddyledion treth gyngor ac ôl-ddyledion rhent i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol fel mathau allweddol o'r dyledion sydd ar ddinasyddion i wasanaethau cyhoeddus a'u partneriaid dan gontractau yng Nghymru.
- Atal dyled yw'r nod delfrydol drwy sicrhau nad yw dinasyddion yn mynd i ôl-ddyled. Fodd bynnag, byddai darparu cymorth cynnar i bobl sydd eisoes mewn ôl-ddyled hefyd yn gallu helpu i ddatrys hyn ac osgoi achosion llysoedd a throi allan.

Y profiad o ddyled a'i graddau

- Gwelwyd cynnydd mewn dyledion treth gyngor yng Nghymru, ar ffurf ôl-ddyledion yn ystod y flwyddyn a dyled ddrwg a ddilëwyd. Yn 2016-17 roedd llysoedd ynadon yng Nghymru wedi rhoi 92,547 o orchmynion dyled ar ddyledion treth gyngor. Roedd cynghorau wedi gwneud 326 o geisiadau am anfon dyledwr i'r carchar, ac roedd 159 o ddedfrydau wedi'u gohirio a dedfrydau wedi'u gorfodi mewn dim ond 20 o achosion. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod dyled yn effeithio ar niferoedd mor fawr yn golygu bod dadl o blaid cymryd camau'n gynharach e.e. cyn mynd i ddyled.
- Ar 31 Mawrth 2017, roedd 31% (70,452) o denantiaethau tai cymdeithasol yng Nghymru mewn ôl-ddyled. Yn 2016-17 cafwyd 3,800 o hawliadau am feddiannu gan landlordiaid cymdeithasol, yn arwain at 820 adfeddiant.
- Mae dyled a phwysau ariannol yn gallu achosi gorbryder ac ansicrwydd mawr; yn achos llawer, mae'r pwysau hyn yn cael eu dwysáu oherwydd ansicrwydd am incwm, diweithdra neu ffactorau eraill sy'n peri eu

bod yn agored i niwed fel problemau iechyd meddwl.

- Mae pobl yn gwneud eu gorau i osgoi dyled, ond mae sefyllfa ariannol sy'n ymddangos yn gadarn yn gallu troi'n fregus; mae digwyddiadau neu newid yn eu hamgylchiadau'n gallu achosi ôl-ddyledion a'u gwneud yn fwy agored i niwed.

Ymateb i ddinasyddion sydd mewn dyled i wasanaethau cyhoeddus

- Mae'r dystiolaeth yn dangos bod cymorth rhagweithiol wedi'i bersonoli, a ddarperir drwy bartneriaethau aml-asiantaeth, yn gweithio'n well na dull cyffredinol sydd yr un fath i bawb.
- Yn ein digwyddiad Bord Gron ym mis Tachwedd 2018 tynnwyd sylw at yr arferion da ymysg cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol yng Nghymru ond roedd y rhai a oedd yn bresennol yn gweld bod cyfleoedd hefyd am ragor o hyfforddiant a mwy o gydweithio i sicrhau bod dinasyddion sydd mewn dyled ledled Cymru yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.
- Rhai o'r ymyriadau allweddol sy'n gweithio yw meithrin hyder, adnabod problemau'n gynnar, ymyrraeth gynnar, llwybrau atgyfeirio rhwydd a mynediad at gyngor annibynnol ar ddyled.
- Mae swm eithaf mawr o dystiolaeth ar gael am hynt dyledion, heblaw am y cyfnod ar ôl cymryd camau gorfodi. Mae angen mwy o dystiolaeth hefyd am ddyledwyr mewn sefyllfaoedd lle maent yn agored i niwed ac am brofiad dinasyddion o ymyriadau.
- Mae digon o ganllawiau, protocolau, offer, ac astudiaethau achos o arferion da ar gyfer awdurdodau lleol a darparwyr tai yng Nghymru. Er hynny, nid yw'n glir pa mor eang neu effeithiol yw'r defnydd ohonynt. Mae hyn yn creu'r perygl o fylchau rhwng polisi ac ymarfer a loteri cod post i bobl sydd mewn.

Cyflwyniad

Mae'r Prif Weinidog wedi ymrwymo i sicrhau bod dinasyddion sy'n mynd i ddyled i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu trin yn gyfiawn ac yn gymesur. Mae'n edrych ar ffyrdd i sicrhau na fydd yr un rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus a ddatganolwyd yng Nghymru yn gyfrifol am garcharu unigolion am ddyledion iddynt. Ym Mehefin 2018 lansiodd ymgynghoriad dros gyfnod o dri mis i ofyn am farn am gynigion i ddileu carcharu fel cosb am beidio â thalu treth gyngor (Llywodraeth Cymru, 2018f).¹

Ochr yn ochr â hyn, mae wedi gofyn i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (y Ganolfan) edrych ar y dystiolaeth a gyhoeddwyd ynghylch y cwestiwn: *Sut byddai gwasanaethau cyhoeddus a'u partneriaid dan gcontractau yng Nghymru yn gallu ymateb yn well i ddyledwyr agored i niwed, yn enwedig y rheini sy'n cael eu herlyn a'u carcharu?*

Cwblhawyd yr adolygiad o dystiolaeth drwy bartneriaeth rhwng y Ganolfan a'r Athro Sharon Collard, Cyfarwyddwr Ymchwil yn y Ganolfan Ymchwil Cyllid Personol, Prifysgol Bryste. Canolbwyntiwyd ar ôl-ddyledion treth gyngor ac ôl-ddyledion rhent i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Mae'r ffaith bod y prif sylw wedi'i roi i'r ddau fath hyn o ddyled yn adlewyrchu'r gydberthynas sydd rhyngddynt a'u natur ddifrifol, gan fod posibilrwydd o garcharu – yn achos ôl-ddyledion treth gyngor – neu adfeddiannu'r eiddo mewn perthynas ag ôl-ddyledion mewn tenantiaeth tai cymdeithasol.

Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn dangos bod y dyledion hyn yn digwydd mewn cyd-destun mwy cymhleth; pan fydd pobl yn mynd i ddyled, bydd hyn yn digwydd fel arfer mewn nifer o gyfeiriadau, fel ei bod yn ddigon posibl y bydd unigolion mewn dyled i asiantaethau eraill, heb sicrwydd ariannol neu'n agored i niwed mewn ffyrdd eraill. Nid yw'r astudiaeth hon yn ymdrin â dyledion eraill sydd hefyd wedi'u diffinio'n ddyledion â blaenoriaeth fel morgeisi, ôl-ddyledion am nwy a thrydan, taliadau cosb parcio, trwyddedu teledu, dirwyon llys ynadon neu or-dalu budd-daliadau, na dyledion sydd heb flaenoriaeth e.e. dyledion ar gerdyn credyd neu am fenthyciadau a gafwyd gan gwmnïau cyllid personol, benthyciadau diwrnod cyflog, trethi dŵr neu ddyledion busnes.

A siarad yn gyffredinol, gall unigolion mewn sefyllfaoedd bregus fod yn agored iawn i niwed os bydd sefydliad (fel awdurdod lleol neu landlord) yn methu â chymryd eu sefyllfa i ystyriaeth. Mae'n anodd diffinio beth yw bod yn agored i niwed oherwydd:

¹ Ar 1 Tachwedd 2018, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei fod yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i sicrhau, o 1 Ebrill 2019, na fydd yn bosibl wedyn ddechrau achos i anfon unigolyn i'r carchar am ddyled treth gyngor. Roedd mwyafrif sylweddol o'r 188 o ymatebion i'r ymgynghoriad yn gefnogol i'r cynigion. Ffynhonnell: <https://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2018/removalimprisonnonpayctax/?lang=cy>

- Gall fod yn gymwys i nifer o wahanol sefyllfaoedd neu amgylchiadau, yn cynnwys (ymysg pethau eraill) iechyd corfforol, iechyd meddwl, profedigaeth, bod yn gaeth i sylweddau, oed, cam-drin corfforol neu seicolegol;
- Gall fod yn gymhleth ac amlweddog;
- Gall fod yn gyflwr ysbeidiol neu dros dro;
- Mae'n cynnwys elfen o farn oddrychol fel arfer;
- Mae'n bosibl na fydd yr hyn sy'n gwneud un person yn agored i niwed yn cael yr un effaith ar berson arall mewn sefyllfa debyg (Collard et al, 2018).

Felly, ar gyfer yr adolygiad hwn o'r dystiolaeth, rydym wedi cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â chymorth i bobl nad ydynt yn gallu talu eu dyledion oherwydd eu hamgylchiadau personol. Pe byddem wedi canolbwyntio'n llwyr ar gymorth i bobl mewn sefyllfaoedd penodol lle maent yn agored i niwed (e.e. oherwydd problemau iechyd meddwl), byddai perygl i ni fetu â chynnwys tystiolaeth ddefnyddiol.

Roedd ein hadolygiad yn canolbwyntio ar gyhoeddiadau am bolisi ac ymarfer, yn hytrach na theori academaidd. Rydym wedi adolygu mwy na 60 o eitemau o dystiolaeth a gynhyrchwyd gan lywodraeth, rheoleiddwyr, melinau trafod, academwyr, a sefydliadau di-elw ac er elw. Rydym yn diolch i randdeiliaid yng Nghymru a rannodd dystiolaeth â ni i'w chynnwys yn yr adolygiad.

Lle'r oedd modd, rydym wedi cynnwys astudiaethau achos o ymchwil a gyhoeddwyd am ddulliau arloesol o gasglu dyled a ddefnyddiwyd gan awdurdodau lleol a darparwyr tai a all fod yn berthnasol i Gymru. Wrth gwrs, bydd enghreifftiau eraill (sydd heb eu cyhoeddi) o arfer dda ac arloesi sydd wedi'u defnyddio gan wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r DU. Mewn digwyddiad Bord Gron ar 1 Tachwedd 2018, y farn gyffredinol ymysg cynrychiolwyr awdurdodau lleol a darparwyr tai yng Nghymru oedd bod arferion da ac arloesi yn gyffredin ledled Cymru; a bod fforymau a rhwydweithiau fel y Rhwydwaith Ansawdd Tai² ar gael i rannu arferion da.

Roedd Llywodraeth Cymru yn ymddiddori hefyd yn yr effeithiau seiliedig ar rywedd o ddulliau anflaengar o gasglu dyled. Prin yw'r wybodaeth a gyhoeddwyd am y pwnc hwn yn ôl pob golwg. Dim ond un astudiaeth a nodwyd gennym a oedd yn ymwneud ag effaith dedfrydau byr o garchar ar famau a'u plant (Baldwin ac Epstein, 2017). Ychydig o wybodaeth a gyhoeddwyd hefyd am gostau a buddion y gwahanol fathau o gymorth.

² <https://hqnetwork.co.uk/about-housing-quality-network>

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r elfennau canlynol:

- Deall profiad y dyledwr yng Nghymru – sylw i brofiad dinasyddion o ddyled, er mwyn rhoi'r mater yn ei gyd-destun a dangos ei effaith ar unigolion;
- Dadansoddiad meintiol o'r boblogaeth yr effeithir arni;
- Adolygiad o dystiolaeth a gyhoeddwyd yn y DU ac mewn gwledydd tramor am gymorth/ymyriadau effeithiol i bobl agored i niwed sydd mewn dyled, mewn gwahanol sectorau, sy'n ymdrin yn benodol ag ymyriadau y gellid eu haddasu ar gyfer y cyd-destun yng Nghymru;
- Casgliadau a chymau gweithredu posibl y bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn gallu eu hystyried er mwyn pennu llwybr cyffredin i'w ddilyn.

Mae'r adolygiad o dystiolaeth yn benodol yn edrych ar hyn ar sail 'dull cylch bywyd', gan ystyried ffyrdd i awdurdodau lleol a darparwyr tai adnabod dinasyddion sydd mewn ôl-ddyled neu mewn perygl o fynd i ôl-ddyled a gweithio gyda nhw er mwyn eu helpu – mor gynnar â phosibl – i gyrraedd sefyllfa ariannol fwy sefydlog.

Rhan 1: Pwy yw'r bobl sydd mewn dyled i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru?

Yn Rhan 1, rydym yn cyflwyno'r cefndir i'r adolygiad o dystiolaeth a geir yn Rhan 2 am ddulliau sy'n ymddangos yn effeithiol wrth ymateb i ddyledwyr i wasanaethau cyhoeddus. Rydym yn dechrau drwy gynnig darlun cyffredinol o raddau ac achosion dyled, cyn darparu proffil ystadegol o bobl sydd mewn dyled i awdurdodau lleol ac i landlordiaid cymdeithasol ledled y wlad. Wedyn rydym yn ystyried y dystiolaeth am brofiad y dinesydd o ddyled – nodweddion y rheini sydd mewn dyled i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol, pa fath o deimlad yw bod mewn dyled i'r gwasanaethau cyhoeddus hyn a beth yw profiadau dyledwyr o'u perthynas â gwasanaethau cyhoeddus ar ôl mynd i ddyled iddynt.

Graddau ac achosion dyled

Mae'r Arolwg Cyfoeth ac Asedau yn amcangyfrif bod 5.2% o aelwydydd yng Nghymru (sy'n cyfateb i 67,600 o aelwydydd) yn profi problem dyled, sydd wedi'i diffinio fel a ganlyn:

- Bod yr aelwyd yn syrthio'n ôl ar dalu biliau neu rwymedigaethau credyd a'i bod un ai'n gwneud ad-daliadau gormodol am ddyled neu mewn ôl-ddyled ar rwymedigaethau misol (problemau hylifedd); neu
- Fod yr aelwyd wedi'i llethu gan lefelau uchel o ddyled o'i chymharu â'i hincwm blyneddol (problemau solfedd) (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2018b).³

Mae proffil y ddyled sydd gan aelwydydd wedi newid yn sylweddol dros amser fel bod nifer y dinasyddion sy'n profi problemau â biliau'r tŷ a dyledion i lywodraeth yn fwy o lawer erbyn hyn na'r nifer sydd â phroblemau â dyledion credyd defnyddwyr (Cyngor ar Bopeth, 2018).

Anaml y bydd dyled yn ffactor ar ei ben ei hun (Finney a Davies 2011; Shelter Cymru 2016; Cymdeithas y Plant 2014; Hood et al 2018). Mae sefyllfa ariannol sy'n ymddangos yn sefydlog yn gallu bod yn fregus. Gall ôl-ddyledion godi o ganlyniad i ddigwyddiadau annisgwyl neu newid mewn amgylchiadau sy'n gwneud pobl yn fwy agored i niwed – er

³ Y ffigur cyfatebol ar gyfer Prydain yw 5.5% o aelwydydd mewn dyled problemus.

enghraifft, colli swydd, gweithio llai o oriau, salwch, methiant perthynas, profedigaeth neu un digwyddiad syml fel yr angen i amnewid neu atgyweirio eitem hanfodol ond drud yn y cartref:

“You’re trying to pull yourself out but you can’t because things still need paying and if there’s something else you need like...when the washing machine went I had to pay, it needed £60 on it...and I thought ‘well, that’s my rent’” (Ipsos Mori, 2014)

Ymhlith y prif achosion a nodwyd mewn ymchwil ddiweddar y mae colli swydd neu newid mewn incwm (Beatty et al, 2012; Hickman et al, 2017), torri budd-daliadau a gostyngiad yng ngwir werth cyflogau (LSE 2014), cynnydd mewn costau byw cyffredinol, yn ogystal â chynnydd mewn eitemau penodol fel rhenti neu’r dreth gyngor (Hood et al, 2018). Yn wir, mae Shelter Cymru yn dadlau mai achos sylfaenol ôl-ddyledion rhent yw tlodi, gan fod y rhan fwyaf o aelwydydd sy’n mynd i ôl-ddyled un ai’n ddi-waith neu mewn gwaith isel ei dâl. Mae ymchwil ddiweddar gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (Hood et al, 2018) hefyd yn dangos bod dyled net yn fwy tebygol o barhau ar aelwydydd isel eu hincwm.

Mae’r dystiolaeth sy’n dangos y cysylltiad rhwng dyled broblemus a risg o wynebu anawsterau ariannol ac incwm aelwydydd yn glir a chyson. Mae dyled broblemus yn gallu cael effaith anffafriol ar safonau byw a llesiant, gan fod delio â dyledion yn lleihau incwm gwario – ac mae hyn yn ei dro yn gallu cynyddu’r risg o aros mewn tlodi gan fod pobl yn teimlo bod y baich o ddelio â’u trafferthion ariannol yn ormod iddynt, neu mae’n tansellio eu gallu i wella eu sefyllfa ariannol (Hartfree a Collard, 2014, 2015). Mae’n bwysig nodi, er bod cysylltiad clir rhwng dyled broblemus ac incwm isel, nad yw’n gyfyngedig i’r di-waith a’i bod yn effeithio ar y rheini sydd mewn cyflogaeth (Orton, 2006, 2009).

Proffil dyledion treth gyngor ac ôl-ddyledion rhent yng Nghymru

Dyledion Treth Gyngor yng Nghymru


Mae trethi cyngor wedi cynyddu’n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae’r bil ar gyfer Band D wedi codi £406 (37%) ar gyfartaledd er 2009-10 pan oedd yn £1,086. Fodd bynnag, mae’r cynnydd net dros y 10 mlynedd diwethaf wedi amrywio ar draws Cymru, o 23.9% yng Nghaerffili i 45.9% yng Nghonwy. Cafwyd cynnydd blynyddol rhwng 2% a 5%, ond yn 2018-19 gwelwyd cynnydd o 5.1% – tua £72 yn fwy i bob aelwyd; y cynnydd mwyaf oedd £125 (11%) yn Sir Benfro (Llywodraeth Cymru, 2018a).

Er gwaethaf hynny, yn 2017-18 y cafwyd y gyfradd gasglu uchaf ers cyflwyno’r dreth gyngor (Llywodraeth Cymru, 2018a) gan fod awdurdodau lleol wedi casglu 97.4% o’r dreth gyngor a godwyd – a hynny’n uwch nag yn Lloegr (97.1%) (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2018a) neu’r Alban (96.0%) (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth yr Alban, 2018). Y swm a gasglwyd am filiau 2017-18, heb gynnwys cynlluniau gostwng y dreth gyngor, oedd £1,454

miliwn o'r £1,492 miliwn a oedd yn gasgladwy; casglwyd £27 miliwn ar ffurf ôl-ddyledion, ac roedd £6.6 miliwn wedi'i ddileu fel dyled ddrwg.

Ar 31 Mawrth 2018 roedd £87 miliwn yn ddyledus ac, o hynny, roedd swm o £37.8 miliwn yn ôl-ddyledion yn ystod y flwyddyn. Yn 2016-17 casglwyd £1,384 miliwn o'r swm o £1,422 miliwn a oedd yn gasgladwy, ac roedd £84.1 miliwn yn ddyledus ar 31 Mawrth 2017. O hynny, roedd £37 miliwn yn ôl-ddyledion yn ystod y flwyddyn a £0.6 miliwn ychwanegol yn ôl-ddyledion o flynyddoedd blaenorol. Mae'r cyfanswm sy'n cael ei ddileu bob blwyddyn fel dyled ddrwg yng Nghymru wedi cynyddu, o £6.0 miliwn yn 2008-09 i £6.9 miliwn yn 2017-18. Mae'r symiau sy'n ddyledus yn rhoi syniad o raddau'r dyledion ac o'r amrywiadau lleol (Ffigur 1).

Ffigur 1: Y Dreth Gyngor yng Nghymru – Symiau dyledus fesul annedd drethadwy ar 31 Mawrth 2009, 2017 a 2018




Nodiadau: Cafwyd y ffigurau o StatsCymru, *Council tax dwellings, by local authority (number of dwellings) - A1 - All chargeable dwellings and Council tax collection rates, by billing authority (£ thousand) – Amounts outstanding at 31 March*, ar gyfer pob blwyddyn. Cyrchwyd y data 26/06/18.

Beth sy'n digwydd i'r rheini sy'n mynd i ôl-ddyledion Treth Gyngor?

Mae Ffigur 2 yn dangos crynodeb o broses gorfodi'r dreth gyngor, gan nodi'r niferoedd a oedd yn gysylltiedig cyn ac ar ôl gwneud gorchmynion dyled. Fel y gwelir, delir â mwyafrif yr achosion o ôl-ddyled heb fod angen i'r awdurdod lleol wneud cais am orchymyn dyled, am fod y rheini sydd mewn ôl-ddyled yn clirio eu dyled neu'n dod i drefniant ad-dalu gyda'r awdurdod lleol. Mae nifer o opsiynau ar gael o ran gorfodi'r gorchymyn dyled, a'r mwyaf cyffredin o'r rhain yw'r defnydd o feiliaid. Dim ond mewn nifer bach o achosion y mae angen cychwyn achos i anfon dyledwyr i'r carchar a dim ond 20 o ddyledwyr yng Nghymru a gafodd eu carcharu am beidio â thalu'r dreth gyngor yn 2016-17. Mae manylion a dadansoddiad ychwanegol yn Atodiad 1.

Ffigur 2: Proses Gorfodi'r Dreth Gyngor (Data am Gymru yn 2016-17)



Addaswyd o ddulliau awdurdodau lleol o adennill dyledion treth gyngor yng Nghymru (Greenall a Prosser, 2017). Mae'r rhifau'n adlewyrchu'r ffigurau ar gyfer Cymru gyfan o ddata meincodi 2016-17 ar bob cam yn y broses (Greenall a Prosser, 2017, Tabl 5.3).

Nodyn: Mae amrywiad o ychydig mwy na 1,000 rhwng cyfanswm y ceisiadau am orchmynion dyled a'r nifer ohonynt a orfodwyd wedyn. Gall hyn fod yn ganlyniad i ffactorau fel cytuno ar drefniadau talu gwirfoddol.

Nid oes tystiolaeth fanwl am nodweddion pobl sy'n derbyn gwŷs traddodi neu rai sydd mewn ôl-ddyled ar unrhyw adeg ar ôl gwneud gorchymyn dyled. Fodd bynnag, mae pryder y gall cyfran

sylweddol o'r dedfrydau sy'n ymwneud â dyledion Treth Gyngor fod yn anghyfreithlon: yn sgîl adolygiad barnwrol proffil uchel, roedd dadansoddiad gan yr Arglwydd Ustus Hickinbottom o 95 o unigolion a garcharwyd am ddyledion treth gyngor rhwng Ebrill 2016 a Gorffennaf 2017 yng Nghymru a Lloegr wedi cael y bydd rhwng 9 a 17 o unigolion wedi'u traddodi i'r carchar yn anghyfreithlon am fod y llys wedi gorchymyn ad-dalu dros gyfnod hir. Barnwyd bod y cyfnodau hyn yn "excessive and disproportionate and render the orders of 20 October 2015 unlawful" *R (Melanie Woolcock) v Secretary of State for Communities and Local Government & Ors* [2018] EWHC 17 (Admin). Yn yr Alban, mae Deddf Dyledwyr (yr Alban) 1987 wedi dileu'r bygythiad o garcharu am beidio â thalu trethi cyngor neu unrhyw dreth.⁴

Mae astudiaeth ddiweddar yn awgrymu mai'r ddyled gyfartalog ymhlith y rheini yr oedd awdurdodau lleol wedi dwyn achos llys yn eu herbyn i'w hanfon i'r carchar am ddyledion treth gyngor oedd £2,213 – sy'n is na'r lefel lle y gellir ystyried dyfarnu rhywun yn fethdalwr (Sefydliad Cynghorwyr Arian a PayPlan, 2017).⁵ Fodd bynnag, mae'n werth nodi ei bod yn bosibl bod y dyledion hyn yn ymwneud ag ôl-ddyledion dros nifer o flynyddoedd a'i bod yn debygol y bydd gan unigolion nifer o ddyledion eraill â blaenoriaeth a rhai heb flaenoriaeth hefyd.

Ôl-ddyledion rhent

Ar 31 Mawrth 2017, roedd 70,452 o denantiaethau mewn ôl-ddyled ledled Cymru, sef ychydig llai nag un rhan o dair (31.4%) o'r holl denantiaethau tai cymdeithasol. Roedd hyn yn 1.4% yn llai na'r 71,433 o denantiaethau a oedd mewn ôl-ddyled ar ddiwedd Mawrth 2016 (Tabl 1).⁶

Tabl 1: Tenantiaethau tai cymdeithasol mewn ôl-ddyled rhent yng Nghymru ar 31 Mawrth

	Local Authority			RSLs			All Social Housing		
	Tenancies	Tenancies in Arrears	%	Tenancies	Tenancies in Arrears	%	Tenancies	Tenancies in Arrears	%
2012-13	86,747	26,800	30.9	134,699	43,050 (r)	32.0 (r)	221,446	69,850 (r)	31.5 (r)
2013-14	86,567	29,308	33.9	135,390	43,751 (r)	32.3 (r)	221,957	73,059 (r)	32.9 (r)
2014-15	86,280	29,584	34.3	136,194	43,517 (r)	32.0 (r)	222,474	73,101 (r)	32.9 (r)
2015-16 (r)	85,715	29,071	33.9	137,386	42,362 (r)	30.8 (r)	223,101	71,433 (r)	32.0 (r)
2016-17	85,875	28,099	32.7	138,752	42,353 (r)	30.5 (r)	224,627	70,452 (r)	31.4 (r)

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2018e) Social Housing Vacancies, Lettings and Rent Arrears, 2016-17 – Revised. SFR18/2018(R). Nodiadau: Mae nifer cyfan y tenantiaethau wedi'i gyfrifo drwy gymryd cyfanswm y stoc a thynnu nifer yr anheddau gwag ar 31 Mawrth. Mae cyfanswm y stoc yn cynnwys yr holl unedau sy'n annibynnol a heb fod yn annibynnol ond nid yw'n cynnwys deiliadaethau canolradd a deiliadaethau nad ydynt am renti cymdeithasol. (r) Data sydd wedi'u diwygio ers eu cyhoeddi o'r blaen o ganlyniad i ymarfer dilysu manwl.


⁴ <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1987/18/section/74>

⁵ Yn 2015, newidiwyd y trothwy isaf ar gyfer dyfarnu methdaliad i £5,000.

⁶ Mae data am ôl-ddyledion rhent tai cymdeithasol wedi'u trafod drwy ymarfer dilysu data yn ddiweddar am fod gwallau wedi'u nodi yn y data a gyflwynwyd yn wreiddiol gan rai darparwyr. O ganlyniad i hyn, roedd angen diwygio ffigurau a gyhoeddwyd cyn hynny ar wefan StatsCymru.

Ar 31 Mawrth 2017, roedd 29.5% (66,242 o 224,627) o'r holl denantiaethau tai cymdeithasol wedi bod mewn ôl-ddyled am lai na 13 wythnos a 1.9% (4,210) am 13 wythnos neu fwy – yn cyfateb i 6.0% o'r rheini mewn ôl-ddyled. Yn Nhor-faen roedd y gyfran fwyaf o denantiaid tai cymdeithasol mewn ôl-ddyled rhent (42.7%), o'i gymharu â 19.0% ym Mlaenau Gwent. Yng Nghaerdydd y cofnodwyd y ganran uchaf o'r holl denantiaethau tai cymdeithasol a oedd mewn ôl-ddyled rhent o 13 wythnos neu fwy (5.2%), tra oedd y ganran isaf o ddim ond 0.7% yng Nghastell-nedd Port Talbot

Ffigur 3: Canran y tenantiaethau tai cymdeithasol yng Nghymru mewn ôl-ddyled ar 31 Mawrth 2017 – diwygiedig.




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2018e)
SFR18/2018(R)*

Beth sy'n digwydd i'r rheini sy'n mynd i ôl-ddyledion mewn tenantiaethau tai cymdeithasol?

Mae Ffigur 4 yn dangos crynodeb o'r prosesau llys ar gyfer achosion adfeddiannu. Yn yr un modd â'r broses ar gyfer y dreth gyngor, er bod 3,800 o hawliadau am feddiant wedi'u gwneud i'r llysoedd gan landlordiaid cymdeithasol, ychydig mwy nag un rhan o dair ohonynt a oedd wedi arwain yn syth at wneud gorchymyn adennill meddiant ac roedd y gweddill un ai wedi'u hatal neu eu datrys gan benderfynu, mewn rhai achosion, i beidio â gwneud gorchymyn. Dim ond un ym mhob pump o'r hawliadau mewn perthynas â thai cymdeithasol a oedd wedi arwain at adfeddiannu yn 2016-17. Mae manylion a dadansoddiad ychwanegol yn Atodiad 1.

Ffigur 4: Y prif brosesau llys ar gyfer achosion adennill meddiant (Data am Gymru yn 2016-17)




* In cases involving a fixed-term tenancy, a landlord possession may not require a hearing under the accelerated procedure

Addaswyd o Mortgage and Landlord Possession Statistics, in England and Wales – Supporting Document, (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2018b). Mae'r rhifau'n adlewyrchu'r cyfanswm ar gyfer awdurdodau lleol Cymru yn y pedwar chwarter yn 2016-17 (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2018a).

Mae gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol wahanol bolisiau ynghylch pa bryd i gychwyn y broses troi allan am ôl-ddyledion rhent. Fel arfer byddant yn ystyried y sancsiwn eithaf o droi allan fel dewis olaf: ni fydd yn cael ei weithredu nes byddant wedi rhoi cynnig ar bob dewis arall. Mae arolwg diweddar o aelodau Cartrefi Cymunedol Cymru (HQN Ltd., 2018) yn awgrymu bod 61% wedi cymryd camau i droi allan am ôl-ddyledion rhent yn y 12 mis blaenorol ac roedd hyn yn cynnwys 492 o achosion troi allan. Roedd ôl-ddyledion y tenantiaid hyn yn £2,275 ar gyfartaledd o fewn amrediad rhwng £1,034 a £5,106. Yr amcangyfrif o gyfanswm yr ôl-ddyledion o ganlyniad i hyn oedd £1.2 miliwn.

Mae Ffigur 5 yn dangos y tueddiadau tymor hwy: cafwyd tuedd gyffredinol at i lawr yn nifer yr hawliadau a gorchmynion am adennill meddiant, ond mae nifer y gwarantau ac achosion o adfeddiannu wedi aros yn weddol sefydlog.

Ffigur 5: Achosion Adennill Meddiant gan Landlordiaid Cymdeithasol yn Llysoedd Sirol Cymru, rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2018



Ffynhonnell: Mortgage and Landlord Possession Statistics in England and Wales, January to March 2018 (Provisional), (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2018a: LA.cvs). Nodyn: Mae'r ffigurau am Gymru wedi'u seilio ar swm yr awdurdodau lleol.

Mae pob cam mewn achosion landlordiaid cymdeithasol yn tueddu i fod yn hirach nag mewn achosion Cyflymedig a Phreifat. Nid yw ffigurau penodol ar gael am Gymru ond, ar gyfartaledd yng Nghymru a Lloegr, mae achosion landlordiaid cymdeithasol yn cymryd 7.3 wythnos fel arfer i gyrraedd cam y gorchymyn. Y cyfnod cyfartalog rhwng yr hawliad a'r

warant adennill meddiant yw 26.7 wythnos a'r cyfnod rhwng yr hawliad a'r adfeddiannu yw 27.9 wythnos ar gyfartaledd.

Ceir amrywiadau mawr yn lleol o ran niferoedd yr hawliadau, y gorchmynion, y gwarantau a'r camau adfeddiannu gan feiliaid y llys sirol ar ran landlordiaid cymdeithasol. I ryw raddau, mae hyn yn adlewyrchu maint y stoc dai gymdeithasol yn ardal pob awdurdod lleol. Er mwyn cymharu, mae cyfradd am bob 100,000 o unedau wedi'i chyfrifo ar gyfer ffigurau 2016-17 a 2017-18.⁷ Ledled Cymru, y gyfradd gyfartalog am hawliadau yn 2016-17 oedd 1,662, ac roedd wedi gostwng ychydig i 1,609 am bob 100,000 o unedau y flwyddyn ddilynol. Fodd bynnag, roedd y gyfradd ar gyfer 2016-17 o fewn amrediad rhwng 359 am bob 100,000 o unedau ym Merthyr Tudful a 5,605 ym Mro Morgannwg tra oedd yr amrediad yn 2017-18 rhwng 136 yn Abertawe a 6,236 yn Sir Ddinbych. Y gyfradd gyfartalog am adfeddiannu oedd 359 yn 2016-17, a'r gyfradd isaf oedd honno ar gyfer Merthyr Tudful (103 am bob 100,000 o unedau). Yng Nghasnewydd yr oedd y gyfradd adfeddiannu uchaf (954 am bob 100,000 o unedau). Fel y gwelir yn Nhabl 2, roedd tuedd net at i lawr yn y gyfradd adfeddiannu ar gyfer 2017-18. Er hynny, gwelwyd cynnydd yn hanner yr awdurdodau lleol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a chafwyd cynnydd sylweddol ym Mro Morgannwg ac yn Sir Ddinbych.

⁷ Mae'r ffigur am y stoc dai gymdeithasol wedi'i godi o *Total stock at social rent by local authority area and dwelling type* sy'n rhan o'r casgliad data am Stoc a rhenti landlordiaid cymdeithasol (StatsCymru). Mae'r data diweddaraf yn ymwneud â 2017-18. Cafwyd nifer y gorchmynion, hawliadau, gwarantau a chamau adfeddiannu o *Mortgage and landlord possession statistics in England and Wales, January to March 2018* (LA.csv). Mae hyn yn rhoi dadansoddiad ar sail mathau o landlord. Mae'r data wedi'u cyfuno ar draws y pedwar chwarter sydd ym mlynnyddoedd ariannol 2016-17 a 2017-18 yn y drefn honno er mwyn cymharu'r gwahanol ffynonellau data yn y ddogfen hon. Mae'r cyfraddau a gyfrifwyd wedi'u seilio ar ffigurau blynyddol yn hytrach na ffigurau chwarterol ac yn ymwneud yn benodol â landlordiaid cymdeithasol. Felly ni ellir eu cymharu â'r ffigurau a gyhoeddwyd.

Tabl 2: (a) Hawliadau am Adennill Meddiant gan Landlordiaid Cymdeithasol a (b) Hawliadau am Adennill Meddiant am bob 100,000 o unedau tai cymdeithasol yng Nghymru

Area	2016-17			2017-18		
	Stock at Social Rent	Rate per 100,000 units		Stock at Social Rent	Rate per 100,000 units	
		Claims	Reposessions		Claims	Reposessions
The Vale of Glamorgan	7,906	2,049	430	7,881	5,913	1,472
Denbighshire	5,774	866	208	5,821	6,236	1,237
Newport	5,449	3,487	954	5,480	2,755	639
Cardiff	13,128	2,917	708	13,256	1,403	521
Conwy	6,340	1,388	394	6,356	5,868	519
Flintshire	9,916	1,099	343	10,035	2,641	518
Blaenau Gwent	14,833	681	115	14,861	3,264	511
Gwynedd	8,738	1,225	217	8,745	1,475	400
Isle of Anglesey	4,779	837	126	4,806	1,644	395
Torfaen	6,881	3,866	857	7,052	1,531	383
Ceredigion	3,389	1,092	118	3,386	1,447	354
Pembrokeshire	8,183	2,701	415	8,214	1,278	304
Carmarthenshire	12,278	2,044	342	12,368	873	283
Merthyr Tydfil	15,607	359	103	15,747	953	235
Powys	8,371	860	203	8,528	1,055	235
Rhondda Cynon Taf	25,457	1,799	267	25,633	671	203
Monmouthshire	9,968	512	110	10,065	1,153	179
Caerphilly	5,870	5,605	784	5,843	1,557	154
Bridgend	8,779	1,219	308	8,867	744	90
Neath Port Talbot	12,477	681	264	12,483	665	64
Swansea	21,198	2,043	439	21,311	136	33
Wrexham	13,363	1,527	584	13,306	286	23
Wales	228,684	1,662	359	230,044	1,609	334

Ffynhonnell: gweler troednodyn 5 t.15.

Nodweddion dinasyddion sydd mewn dyled i wasanaethau cyhoeddus

Mae Cyngor ar Bopeth (2016) wedi rhoi gwybod mai dyledion treth gyngor yw'r broblem fwyaf yng nghyswllt dyled a welwyd yn ei rwydwaith yng Nghymru, a bod mwy na 16,000 o broblemau wedi'u cofnodi yn ystod 2015-16. Yn ystod 2015 i 2016, ôl-ddyledion treth gyngor oedd y broblem fwyaf yng nghyswllt dyled mewn 10 ardal awdurdod lleol a'r ail fwyaf mewn 6 ardal. Ym mhob ardal ond un o'r gweddill, dyled treth gyngor oedd y drydedd fwyaf o'r problemau yng nghyswllt dyled.

Gyda golwg ar broffil cleientiaid yng Nghymru ag ôl-ddyledion treth gyngor rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2016:

- roedd bron 90% mewn oedran gweithio ac roedd 1 ym mhob 5 mewn cyflogaeth (yn rhan-amser, yn amser llawn neu'n hunangyflogedig); ⁸
- mae gan 2 ym mhob 5 blant dibynnol ar yr aelwyd;
- mae 1 ym mhob 4 yn byw ar ei ben ei hun;
- roedd 3 ym mhob 10 yn byw ag anabledd a/neu gyflwr iechyd tymor hir;
- mae 6 ym mhob 10 yn rhentu eu cartrefi (mae ychydig mwy yn rhentu gan landlordiaid cymdeithasol).

Mae Cyngor ar Bopeth (2018) wedi nodi hefyd fod newid sylweddol yn natur y problemau dyled y mae eu cleientiaid yn dod atynt i'w trafod, oddi wrth broblemau credyd defnyddwyr gyda chynhyrchion fel cardiau credyd a chardiau siop (o 38% yn 2011/12 i 24% yn 2016/17), at broblemau ag ôl-ddyledion am hanfodion fel y dreth gyngor, rhent, a biliau ynni (o 30% yn 2011/12 i 46% yn 2016/17). Nodwyd y duedd hon hefyd yn ffigurau'r Llinell Ddyled Genedlaethol: hanfodion oedd testun 26% o'r galwadau yn ystod 9 mis cyntaf 2017, o'i gymharu â 14% yn 2007 (Money Advice Trust, 2017).

Nododd Cyngor ar Bopeth (2016) hefyd fod 34% o'r cleientiaid mewn ôl-ddyled treth gyngor wedi rhoi gwybod am broblem ynghylch camau gorfodi gan feiliaid – proses sy'n ychwanegu rhagor o arian at y ddyled. Ailadroddwyd y pryderon hyn mewn ymchwiliad ddiweddarach gan Cyngor ar Bopeth (2018). Mae tystiolaeth o ffynonellau eraill yn ategu profiad Cyngor ar Bopeth o ran maint y ddyled treth gyngor sy'n cael ei thrafod gan asiantaethau dyled. Mewn tystiolaeth a gyflwynwyd i ymchwiliad Pwyllgor Trysorlys Senedd y DU ar Gyllid Cartref, dywedodd Prif Weithredwr StepChange Debt Charity wrth y Pwyllgor fod yr elusen bellach yn gweld *“council tax debts, over £1,000 on average... in around 31 per cent of our clients”*. (Tŷ'r Cyffredin, 2018, para.44).

Mae'r ffigurau am denantiaethau'n ymwneud â'r cytundeb tenantiaeth rhwng yr unigolyn (neu unigolion, yn achos cyd-denantiaeth) a'r landlord cymdeithasol, nid nifer y tenantiaid tai cymdeithasol sy'n byw mewn eiddo penodol. O ganlyniad i hyn, ni allwn adnabod nodweddion y rheini sydd mewn ôl-ddyledion rhent ar sail y ffigurau a gyhoeddwyd. Yn yr un modd, nid yw StatsCymru yn cyhoeddi ffigurau am ddyledion nodweddiadol.

⁸ Mae'r ffigurau a gafwyd gan Cyngor ar Bopeth wedi'u dangos fel y cawsant eu cyhoeddi ac maent wedi'u seilio ar y data sydd ar gael am broffil cleientiaid. Dim ond y cwestiynau proffilio am oed, rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd sy'n orfodol. Dylid nodi mai dim ond ar gyfer 48% o gleientiaid y mae ganddo ddata am statws cyflogaeth.

Mewn ymchwil a gynhaliwyd gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd (Protheroe et al, 2017), ystyriwyd yr effaith ddichonol o gyflwyno Credyd Cynhwysol, sy'n golygu na fydd taliadau rhent dros denantiaid o oedran gweithio yn cael eu gwneud yn uniongyrchol bellach i'r landlord fel yr oeddent o dan y system budd-dal tai. Yn lle hynny, bydd yr arian yn mynd at denantiaid fel y byddant yn talu eu rhent eu hunain. Yn Awst 2018, cafwyd adroddiad gan Cartrefi Cymunedol Cymru ar ganlyniadau arolwg o 23 o gymdeithasau tai. O blith 6,892 o denantiaid a oedd yn derbyn Credyd Cynhwysol, roedd DWP wedi newid taliadau 1,029 (14%) ohonynt yn Daliad a Reolir am eu bod yn agored i niwed. Yn ogystal â hyn, roedd didyniadau trydydd parti yn cael eu cymryd o'r taliadau i 280 o'r 6,892 o denantiaid (4%) am ôl-ddyledion rhent. Mae'r defnydd o daliadau rhent a reolir a didyniadau trydydd parti i adennill ôl-ddyledion rhent yn amrywio rhwng landlordiaid, yn ôl eu strategaethau ar gyfer adennill incwm. Cyfanswm ôl-ddyledion rhent y 6,892 o denantiaid hyn oedd £2.82 miliwn – £409 am bob tenant ar gyfartaledd (Cartrefi Cymunedol Cymru, 2018).

Roedd 40,842 o aelwydydd yn derbyn Credyd Cynhwysol yng Nghymru ym Mehefin 2018 (DWP Stat-Xplore). Rhagwelir y bydd y ffigur hwn yn codi i 400,000 o aelwydydd erbyn diwedd y broses trosglwyddo wedi'i reoli (trosglwyddo hawlwr budd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol), sydd i'w chwblhau yn 2023. Felly, mae'n bosibl y bydd nifer yr hawlwr yn cynyddu fwyfwy ar ôl dechrau'r broses trosglwyddo wedi'i reoli ac y bydd effeithiau canlyniadol o ran Taliadau a Reolir a didyniadau trydydd parti. Yn ein digwyddiad Bord Gron ar 1 Tachwedd 2018, roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol a darparwyr tai yng Nghymru wedi mynegi pryder mawr am yr effaith niweidiol bosibl o gyflwyno Credyd Cynhwysol ar gyllid cartref hawlwr yng Nghymru a'r effeithiau canlyniadol ar gasglu'r dreth gyngor a rhenti.

Mae cydnabyddiaeth gryf hefyd yn y dystiolaeth a gyhoeddwyd i'r pwysau ariannol cynyddol y mae cynghorau a chymdeithasau tai yn eu hwynebu yn yr hinsawdd economaidd bresennol ac i'r angen iddynt fabwysiadu ymagwedd fwy hirben at sicrhau bod y dreth gyngor a rhenti yn cael eu casglu, gan barhau i gynorthwyo talwyr trethi a thenantiaid yr un pryd:

Government action is driving a hard bargain – associations are expected to play a far bigger role in communities as viable landlord businesses, builders of low cost homes, and vital community support. (Power, et al, 2014, t.28)

Ar sail ei dadansoddiad o ddata elusennau dyled, roedd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cael bod dinasyddion yn rhoi gwybod am fwy o broblemau ynghylch dyledion i lywodraeth wrth i'r flwyddyn ariannol fynd ymlaen, ac roedd hwnnw'n batrwm nad oedd wedi'i weld mewn perthynas â dyledion i'r sector preifat (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2018a).

Profiad dinasyddion o ddyled i wasanaethau cyhoeddus

Mae tystiolaeth glir ar gael o raddau ac effaith dyled yng Nghymru a ledled y DU (StepChange 2015, 2018b; Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol 2017b). I nifer mawr o unigolion a theuluoedd, mae dyled a phwysau ariannol yn peri straen, gorbryder ac ansicrwydd gwirioneddol a pharhaus o ddydd i ddydd. Mewn nifer mawr o achosion, mae'r pwysau hyn yn cael eu dwysáu gan anawsterau fel ansicrwydd ynghylch incwm, diweithdra a ffactorau eraill sy'n peri i bobl fod yn agored i niwed fel problemau iechyd meddwl. Mae nifer o astudiaethau sy'n egluro'r heriau ariannol a wynebwr gan deuluoedd ac unigolion sydd mewn ôl-ddyled, yn cynnwys ôl-ddyledion rhent a Threth Gyngor (Greenall a Prosser 2017; Shelter Cymru 2016; StepChange 2015; Cymdeithas y Plant 2014 a 2015; Hartfree a Collard 2014). Maent yn adrodd ar brofiadau personol rhai o'r unigolion a theuluoedd hynny wrth geisio delio â'r heriau hynny a'u perthynas â chynghorau a chymdeithasau tai – yn gadarnhaol a negyddol. Mae'r disgrifiadau'n bersonol ac yn bwerus.

Mewn ymchwil i brosiectau arddangos Taliadau Uniongyrchol (agwedd ar ddiwygio lles yn y DU), cafwyd bod y lefel uwch o ôl-ddyledion a oedd yn codi wedyn yn arwain at nifer o ganlyniadau negyddol (Hickman et al, 2017). Roedd y rhain yn cynnwys y 'cywilydd' a'r 'annifyrrwch' o fod mewn ôl-ddyled yn ogystal â'r anhawster wrth ad-dalu ôl-ddyledion – mae'r ymchwil yn dangos bod nifer o denantiaid wedi dweud eu bod yn gorfod 'gwneud heb' er mwyn ad-dalu ôl-ddyled. Mae'r profiadau hyn wedi'u hadlewyrchu mewn data cymharol ar y sector rhent preifat, ac mae adroddiad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP, 2014a) yn nodi bod y rhai a gyfwelwyd yn rhoi blaenoriaeth i dalu rhent a'r dreth gyngor ac yn mynegi teimladau o annifyrrwch ac euogrwydd ynghylch gorfod gwario eu Budd-dal Tai ar ryw beth heblaw rhent. Roedd un o'r rhai a gyfwelwyd wedi disgrifio sut yr oedd yn ei chael yn anodd ymdopi'n ariannol:

'Yes, I prioritise rent. The rent and council tax. And then I just manage on what I've got left to pay for anything else.' (DWP, 2014a, t.42)

a'i theimladau am beidio â defnyddio ei Budd-dal Tai i dalu ei rhent:

'I felt ashamed. I felt like I was robbing somebody, but I spent it and I shouldn't have At the time I thought I'd be in trouble, really big trouble. I thought I'd end up losing my house. I was embarrassed, I was ashamed, you know? But at the time it was in my bank and it was ... I needed it.' (DWP, 2014a, t.42)

Mae'r arolwg gan Ipsos Mori ar ran Citizens Advice Scotland (Citizens Advice Scotland, 2017) wedi dangos yn yr un modd fod defnyddwyr yn yr Alban yn rhoi'r flaenoriaeth fwyaf i daliadau rhent a morgais ac wedyn i filiau cyfleustodau, costau bwyd a'r dreth gyngor. Pwys cymedrol oedd yn cael ei roi i ad-daliadau credyd.

Roedd tystiolaeth o ymchwil yn Newham hefyd yn dangos bod pobl yn rhoi blaenoriaeth i dalu rhent, ac mai taliadau treth gyngor a chyfleustodau oedd y flaenoriaeth nesaf. Mae rhent a'r dreth gyngor yn peri pryder ac anhawster mawr am fod y biliau am y ddau beth hyn yn bygwth sicrwydd pobl yn eu cartref. Fodd bynnag, yn achos rhai '*what comes in first gets paid first*' (LSE, 2014, t.34).

'Waiting for the red letter and second reminders has become a strategy to deal with expenses. "We got a reminder letter for gas and electricity and we waited for the next one... We haven't paid the council tax yet. I'm waiting for them to ring me, and pretend that I forgot or something".' (LSE, 2014, t.16)

Mewn adroddiad i Lywodraeth Cymru ar ddulliau awdurdodau lleol o adennill dyledion treth gyngor (Greenall a Prosser, 2017, tt.34, 40), tynnwyd sylw at ymchwil gan Cyngor ar Bopeth a oedd wedi nodi cymhlethdod cynyddol yr achosion yr oedd eu cynghorwyr dyled yn dod ar eu traws yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys nifer cynyddol o gleientiaid a oedd yn gofyn am gyngor ar ddyledion treth gyngor hanesyddol, yn ogystal ag ôl-ddyledion cyfredol. Roeddent hefyd yn nodi nifer o ffactorau a oedd yn cyfrannu at y cynnydd mewn dyled treth gyngor, yn cynnwys anallu i flaenoriaethu ad-daliadau dyled, dryswch ynghylch y broses o dalu'r dreth gyngor a dealltwriaeth wael o'r goblygiadau o beidio â thalu.

Mae ymchwil o ffynhonnell arall yn tynnu sylw at yr effaith ar blant o ganlyniad i ddyled broblemus, ac yn nodi bod rhieni a oedd mewn dyled yn dweud bod ôl-ddyledion treth gyngor a mynediad annigonol at gyngor ar ddyled yn broblemau allweddol iddynt (Cymdeithas y Plant, 2015). Roedd mwy na dwy ran o dair o'r teuluoedd a astudiwyd wedi dweud eu bod yn dioddef gan orbryder, straen neu iselder a oedd yn gysylltiedig â'u bil treth gyngor. Teimlai teuluoedd ei bod yn anodd celu'r straen o ddyled rhag eu plant, ac roedd mwy na'u hanner yn cymryd arian ar fenthyg i dalu eu bil, yn cynnwys arian gan fenthycwyr diwrnod cyflog ac ar gardiau credyd, a oedd yn eu gwthio ymhellach i fagl dyled. Roedd rhieni'n gorfod gwneud dewisiadau anodd ac roedd un rhan o dair ohonynt wedi torri eu gwariant ar filiau eraill â blaenoriaeth fel rhai am fwyd.

Mae astudiaethau diweddar o'r effeithiau sy'n deillio o ddiwygio lles ledled y DU hefyd yn awgrymu bod pryder ar gynnydd mewn cysylltiad ag ofn dyled a'r profiad o ddyled (Herden, 2015; Hickman et al., 2017). Mae ymchwil ymysg tenantiaid tai cymdeithasol yn cyfleu darlun digalon: mae landlordiaid wedi rhoi gwybod am gynnydd helaeth mewn tlodi, gorbryder, ansicrwydd ac ofn o fwy o achosion o droi allan ymysg tenantiaid; roedd pobl yn dibynnu'n bennaf ar eu teulu a'u ffrindiau am gymorth, ond roeddent yn aml yn troi at dorri ar fwyd, chyfleustodau a nwyddau eraill y cartref, yn ogystal â chynyddu eu benthyca a'u dyled a gwerthu eu heiddo (Power, 2014; Britain Thinks, 2018).

Mae'r Archwiliad o Safonau Byw gan Sefydliad Resolution ar gyfer 2018 (Sefydliad Resolution, 2018) yn amcangyfrif bod incymau gwirioneddol aelwydydd wedi gostwng rhwng 0.5% a 1.5% ymysg aelwydydd sydd yn nhraean isaf y dosbarthiad incymau a bod cyfran fwy

o'r incwm i deuluoedd sydd mewn gwaith yn hanner isaf y dosbarthiad incymau yn dod o fudd-daliadau, a all arwain at gynnydd mewn dyledion ac ôl-ddyledion.

Yn olaf, mae'n bwysig nodi bod y dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod pobl yn gwneud eu gorau i osgoi dyled. Fel arfer, mae pobl yn rhoi pwys mawr ar reoli eu harian ac yn rhoi blaenoriaeth uchel i dalu'r rhent neu forgais, gan dorri'n ôl yn lle hynny ar ynni a bwyd (Hartfree a Collard, 2014; Ffederasiwn Tai Cenedlaethol, 2015). Gan amlaf, rhoddir blaenoriaeth i dalu'r rhent "*above all else*" er bod hyn yn gallu creu tyndra wrth geisio cwrdd ag anghenion pwysig eraill o ddydd i ddydd (Whitfield, 2013, t.4). Bwyd, ynni a rhent yw'r pwyntiau gwasgu mwyaf wrth oroesi'n ariannol (LSE, 2014).

Bylchau a gwendidau mewn tystiolaeth

Ychydig iawn yr ydym yn ei wybod am nodweddion yr aelwydydd sy'n cael nad ydynt yn gallu talu eu biliau treth gyngor neu eu rhent – mae rhywfaint o wybodaeth ar gael am y rheini sydd wedi gofyn am gyngor drwy Cyngor ar Bopeth ond nid yw hon yn rhoi darlun cyflawn. Mae data cyfanredol ar gael am y niferoedd sy'n gysylltiedig ar wahanol gamau ym mhroses gorfodi'r dreth gyngor ond, heb wybod am yr achosion unigol, mae'n anodd cael gwybod pa nifer sy'n amharod yn hytrach yn analluog i dalu. O ganlyniad i hyn, gall fod yn anodd cadw cydbwysedd rhwng mabwysiadu dull mwy personol a chynorthwyo'r rheini sy'n agored i niwed a'r bygythiad o achos llys neu garcharu, yn enwedig yn ystod y cam cyn gwneud gorchymyn dyled pan fydd sawl agwedd ar y broses yn cael ei hawtomeiddio'n sypiau, oherwydd nifer mawr yr achosion.

Mae'n anodd cael gwybod a oes dimensiwn rhywedd i'r mathau hyn o ddyled; bydd biliau treth gyngor yn cynnwys yr holl oedolion ar yr aelwyd tra bydd cytundebau tenantiaeth yn gallu bod mewn un enw neu nifer o enwau yn ôl nodweddion yr aelwyd. Rydym yn gwybod mwy, er enghraifft, am garcharu am beidio â thalu'r ddirwy sy'n gysylltiedig â bod heb drwydded deledu; mae hyn yn haws ei ganfod oherwydd y niferoedd dan sylw a'r ffordd o ddal data am boblogaeth y carchardai. Fodd bynnag, mae nifer o agweddau ar y system gyfiawnder lle nad yw ffigurau penodol am Gymru ar gael yn rhwydd. Mae hyn yn cyfyngu hefyd ar y gallu i ddisgrifio proffil y rheini y cychwynwyd achosion cyfreithiol yn eu herbyn mewn perthynas â'r mathau o ddyled sy'n cael eu trafod yn yr adroddiad hwn.

Rhan 2: Adolygiad o'r dystiolaeth

Dull cylch bywyd

Derbynnir yn gyffredinol mai gwell yw rhwystro'r clwy na'i wella. Mae hyn yn golygu atal dinasyddion rhag mynd i ôl-ddyled gyda'u biliau a'u rhwymedigaethau domestig os oes modd. Os nad yw hyn yn bosibl, mae'n golygu ymgysylltu â dinasyddion a'u cynorthwyo'n fuan wedi iddynt fynd i ôl-ddyled pan fydd gwell cyfle i ddatrys y broblem o bosibl, a modd i osgoi costau achos llys a throi allan (DCLG, 2006). Mae wedi'i amcangyfrif, er enghraifft, mai cost troi allan gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i economi Cymru yw £26,600 am bob achos o droi allan; a £8,200 am bob achos o droi allan gan landlord cymdeithasol (Shelter Cymru, 2016).

Gan gofio hynny, rydym wedi mabwysiadu dull 'cylch bywyd' o ystyried y ffyrdd y mae awdurdodau lleol a darparwyr tai yn gallu adnabod dinasyddion (a dinasyddion agored i niwed yn benodol) sydd mewn ôl-ddyled neu berygl o fynd i ôl-ddyled ac ymgysylltu â nhw a'u cynorthwyo – o'r adeg y maent yn dod yn gyfrifol am dalu rhent neu dreth gyngor hyd at y pwynt lle byddant wedi talu popeth sy'n ddyledus os gallant neu lle y byddant o leiaf mewn sefyllfa ariannol fwy sefydlog. Ein nod yw dangos y gwahanol bwyntiau mewn amser a'r gwahanol ffyrdd i sefydliadau weithredu – hyd yn oed lle gallai'r ymyriad fod yr un fath, er enghraifft, darparu budd-daliadau lles neu gyngor ar ddyled.

Rydym yn credu bod y dystiolaeth yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer gweithredu ac arloesi pellach yng Nghymru, drwy adeiladu ar sail yr arfer dda a'r arloesi sy'n bod eisoes ymysg awdurdodau lleol a darparwyr tai. Un neges gyson a gafwyd o nifer o wahanol ffynonellau yw bod cymorth rhagweithiol wedi'i bersonoli, a ddarperir drwy bartneriaethau aml-asiantaeth effeithiol, yn gweithio'n well na dull cyffredinol sy'n cael ei gymhwyso at bawb. Er ei fod yn debygol o fod yn ddrud, fe all y dull cyntaf sicrhau gwell gwerth am arian na gwasanaethau rhad nad ydynt yn gweithio. Fodd bynnag, prin iawn yw'r wybodaeth a gyhoeddwyd am gostau a buddion er mwyn gallu asesu gwerth am arian. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi amcangyfrif bod camau bygythiol a ffioedd ychwanegol yn 15%-29% yn fwy tebygol o wneud dyledion yn fwy anodd eu rheoli ac o gynyddu gorbryder neu iselder ymysg dyledwyr (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2018a).

Yn y digwyddiad Bord Gron a gynhaliwyd ym mis Tachwedd gydag awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a sefydliadau eraill, roedd yn glir bod pryder ynghylch y gallu – yn cynnwys y gallu i ddarparu cyngor ar ddyled – i ddelio â phwysau yn y dyfodol, yn cynnwys cyflwyno Credyd Cynhwysol. Yn y cyd-destun hwn, roedd cydnabyddiaeth i'r angen am fwy o gydweithio a gweithio mewn partneriaeth, ac i'w gwerth posibl, ar draws sefydliadau a sectorau mewn meysydd fel hyfforddi staff rheng flaen, rhannu data, a lledaenu arferion da.

Cafwyd cydnabyddiaeth bod y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol⁹ yn cynnig cyfle i helpu i ddatblygu gwasanaethau cynghori hygyrch ledled Cymru, yn cynnwys rhai ar gyfer lles, dyled a thai.

Adnabod rhai sy'n agored i niwed

Mae ymchwil a gynhyrchwyd gan wasanaethau cynghori ar ddyled am eu cleientiaid yn dangos bod llawer o orgyffwrdd rhwng dyledion i lywodraeth, bod yn agored i niwed a chaledi – cyfuniad o ffactorau sy'n creu goblygiadau i weithgareddau casglu dyledion yr awdurdodau lleol. Yn 2017, roedd gan un ym mhob pump o gleientiaid StepChange ffactor ychwanegol a oedd yn eu gwneud yn agored i niwed ar ben eu trafferthion ariannol (problem iechyd meddwl gan amlaf). Roedd y cleientiaid hyn yn fwy tebygol o syrthio'n ôl ar dalu eu biliau domestig (fel rhai am rent a'r dreth gyngor) ac o fod â chyllideb negyddol h.y. roedd ganddynt lai o arian yn dod i mewn nag yr oeddent yn ei wario ar hanfodion (StepChange, 2018a).

Ymysg cleientiaid yr elusen CAP Debt Help, roedd eu hanner (49%) wedi bod mewn dyled i'r DWP, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi neu eu hawdurdod lleol; y ddyled fwyaf cyffredin oedd ôl-ddyledion treth gyngor. Roedd cleientiaid a oedd mewn dyled i'r sefydliadau hyn yn fwy tebygol o lawer o fod ar incwm isel; roedd bron dwy ran o dair (64%) yn byw o dan y llinell dlodi, ac roedd bron un ym mhob deg (37%) yn unig rieni. Yn yr un modd â chleientiaid StepChange, roedd y cleientiaid hyn hefyd yn fwy tebygol o fod mewn sefyllfa lle'r oeddent yn agored i niwed – yn byw gydag anhawster dysgu neu broblem iechyd meddwl mewn llawer achos (CAP, 2018).

Mewn ymchwil gydag awdurdodau lleol yng Nghymru i ddulliau o adennill dyledion treth gyngor, cafwyd bod pob un ohonynt yn ystyried ffactorau sy'n gwneud pobl yn agored i niwed ac yn gwneud rhyw ymdrech i adnabod unigolion sydd mewn sefyllfaoedd sy'n eu gwneud yn agored i niwed. Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth yn dangos bod hyn yn digwydd yn hwyr yn y dydd gan amlaf, ar gam y gorchymyn dyled, oherwydd y nifer mawr o gyfrifon yr oeddent yn delio â nhw cyn y cam hwnnw a'r prosesau awtomatig a ddefnyddir i drin y niferoedd hyn (Greenall a Prosser, 2017). Pe byddai awdurdodau lleol yn gallu adnabod unigolion sy'n agored i niwed yn gynharach yn y broses, gallai hynny arwain at ddull gwahanol o weithredu ac efallai at osgoi camau gorfodi. Ar hyn o bryd, gall awdurdodau lleol yng Nghymru orfod dibynnu ar ymgysylltu gan drethdalwyr i adnabod rhai sy'n agored i niwed. Ceir anawsterau mawr wrth geisio asesu'r graddau y mae rhywun yn agored i niwed os na fydd y trethdalwr yn cysylltu â'r cyngor neu ddarparwr cymorth arall.

⁹ <https://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/advice-services/national-advice-network/?skip=1&lang=cy>

Yn achos landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, mae mwy o gyfleoedd i ddod i adnabod tenantiaid a'r rhai yn eu plith a all fod yn agored i niwed. Mae nifer o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru yn defnyddio rhestrau gwirio am fod yn agored i niwed ac asesiadau cyn tenantiaeth a byddant yn casglu rhagor o wybodaeth drwy gydol y denantiaeth am ffactorau a all wneud tenantiaid yn agored i niwed. Mae darparwyr tai yn defnyddio'r data hyn i roi blaenoriaeth i'r tenantiaid mwyaf anghenus (HQN Ltd., 2018).

Mae canllawiau seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y sector casglu dyledion masnachol a gyhoeddwyd yn 2017 yn ymdrin yn fanwl â'r ffordd y gall cwmnïau adnabod a chynorthwyo pobl mewn sefyllfaoedd sy'n eu gwneud yn agored i niwed, yn cynnwys protocolau ac offer i ddelio â datgelu, ffyrdd sensitif i gasglu rhagor o wybodaeth, a gweithio gyda sefydliadau partneriaid (Fitch et al., 2017) – byddai modd addasu llawer o'r rhain ar gyfer awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

Defnyddio data yn well

Mae cyfle hefyd i sefydliadau wneud gwell defnydd o ddata i adnabod a chynorthwyo pobl sydd mewn dyled, yn enwedig dinasyddion agored i niwed a all fod heb ddim neu nemor ddim cysylltiad â gwasanaethau cyhoeddus (Finn a Goodship, 2014). Mae defnydd mwy effeithiol o ddata gan sefydliadau'n newid y pwyslais o weithredu unigol gan ddinasyddion (a all fod yn anodd i bobl mewn sefyllfaoedd lle maent yn agored i niwed) i ddefnydd gwell o'r wybodaeth sydd gan sefydliadau eisoes (o fewn cyfyngiadau deddfwriaeth diogelu data).

Mae Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn ei gwneud yn bosibl i gyrff cyhoeddus rannu data â'i gilydd o dan bwerau penodol. Yng Nghymru, byddai hyn yn gallu hwyluso rhannu data rhwng sefydliadau llywodraeth leol mewn achosion lle mae dyled i'r sector cyhoeddus (fel dyled treth gyngor) o dan yr 'amcan anfanteision lluosog' er mwyn sicrhau bod dinasyddion yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, fel cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor. Byddai sefydliadau llywodraeth leol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig hefyd yn gallu rhannu data â'i gilydd o dan yr 'amcan anfanteision lluosog' (Llywodraeth Cymru, 2017a) i ddarparu cymorth yn fwy effeithiol i ddinasyddion agored i niwed (pa un a ydynt mewn dyled neu beidio).¹⁰

¹⁰ Mae amcanion hefyd ar gyfer tlodi tanwydd, tlodi dŵr ac ailidwio setiau teledu. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar restr arfaethedig o gyrff cyhoeddus sy'n rhannu gwybodaeth yng Nghymru rhwng Rhagfyr 2017 a Chwefror 2018 <https://beta.gov.wales/digital-economy-act-proposed-list-data-sharing-public-bodies-wales>

Astudiaeth achos

Defnyddio data i dargeddu gwasanaethau

Er mwyn cynnig enghraifft o'r ffordd y byddai rhannu data yn gallu gweithio'n ymarferol, mae'r Cynllun Disgownt Cartrefi Cynnes wedi defnyddio data gweinyddol DWP i adnabod pobl hŷn ar incwm isel a fyddai'n gallu elwa o'r cynllun. Yn ôl ffigurau a gyhoeddwyd yn 2016, mae mwy nag un miliwn o bensiynwyr isel eu hincwm yn cael disgownt awtomatig ar filiau ynni bob gaeaf, heb fod angen llenwi ffurflen gais a chyda gorbenion gweithredu isel iawn i gyflenwyr. (Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, 2016)

Cafwyd argymhelliad mewn ymchwil flaenorol yng Nghymru am drefniadau gwell ar gyfer rhannu data a dal data gan awdurdodau lleol mewn perthynas ag adennill dyledion treth gyngor, rhwng adrannau yn yr un awdurdod lleol a hefyd rhwng awdurdodau lleol ac asiantaethau allanol fel gwasanaethau cyngori ar ddyled (Greenall a Prosser, 2017). Yn ogystal â hyn, roedd yr adroddiad yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i'r dichonoldeb o hwyluso mynediad gan awdurdodau lleol at ddata cyflogaeth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi er mwyn gallu atafaelu enillion yn ddi-oed lle'r oedd hynny'n briodol – rhywbeth yr oedd awdurdodau lleol wedi galw amdano'n gyson yn yr ymchwil (Greenall a Prosser, 2017). Roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol wedi galw eto am hyn yn ein digwyddiad Bord Gron ar 1 Tachwedd 2018.

Un o'r syniadau eraill ar gyfer rhannu data yn well yw mabwysiadu system 'dweud wrthym unwaith' gan asiantaethau llywodraeth leol a chanolog i rannu data am bobl sydd mewn dyled i fwy nag un ohonynt, fel cynllun hysbysu am brofedigaeth y llywodraeth (CAP, 2018). Mae Swyddfa'r Cabinet yn arwain cynllun peilot i adnabod dyledwyr sydd mewn dyled i fwy nag un o sefydliadau'r llywodraeth er mwyn ategu'r ddatl o blaid mwy o rannu data er mwyn atal dyled bersonol (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2018a).

Er mwyn rhannu data yn effeithiol, mae angen data o ansawdd da a rheolaeth fedrus ar ddata. Gall unrhyw sefydliad wynebu heriau trefniadol mewn perthynas â data anghyson, anghyflawn neu anghywir, cofnodion dyblyg a data sy'n cael eu dal ar systemau gwahanol (McGinn et al., 2016) yn ogystal â phroblemau yng nghyswllt systemau mewnol sy'n cyfyngu ar y gallu i rannu data (Collard et al., 2018). Rhaid i sefydliadau sicrhau hefyd eu bod yn cydymffurfio â chyfraith diogelu data wrth gasglu, cofnodi a defnyddio data personol (Fitch et al., 2017).

Bylchau a gwendidau mewn tystiolaeth

Mae'n ymddangos bod dau brif fwch yn y sylfaen dystiolaeth bresennol. Yn gyntaf, nid oeddem wedi canfod unrhyw wybodaeth gyhoeddedig am effeithiolrwydd y gwahanol ddulliau o adnabod dinasyddion sy'n agored i niwed, ac a yw'r dinasyddion hyn yn cael gwell

canlyniadau drwyddynt. Yn ail, mae nifer o astudiaethau wedi tynnu sylw at y posibilrwydd o rannu data er mwyn targedu gwasanaethau'n well. Er ei bod yn bosibl bod enghreifftiau (sydd heb eu cyhoeddi) o ddulliau arloesol o rannu data i ddelio â dyled gan awdurdodau lleol a darparwyr tai yng Nghymru, nid oeddem wedi dod ar draws unrhyw enghreifftiau cyhoeddedig yn ein hadolygiad cyflym o dystiolaeth, yng Nghymru nac yng ngweddill y DU.

Helpu dyledwyr agored i niwed i ddeall a rheoli biliau

Er mwyn talu eu dyledion, mae'n bwysig bod dinasyddion yn deall eu hatebolrwydd; a'u bod yn cael unrhyw gymorth ariannol y mae ganddynt hawl i'w dderbyn. Ar yr un pryd, mae lefel budd-daliadau a chredydau treth a'r ffordd o'u gweinyddu gan y wladwriaeth yn gallu effeithio'n sylweddol ar sefyllfaoedd ariannol dinasyddion a'u gallu i dalu rhent, treth gyngor a biliau eraill â blaenoriaeth.

Deall atebolrwydd

Yn fwy na 10 mlynedd yn ôl, cyhoeddwyd canllawiau gan Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) y DU ar ffyrdd effeithiol i reoli ôl-ddyledion rhent a oedd yn rhoi pwys mawr ar feithrin diwylliant talu i atal ôl-ddyledion, gan ganolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth yn rhan o'r gweithdrefnau arferol ar gyfer llofnodi cytundebau tenantiaeth gan denantiaid newydd (DCLG, 2006).

Nid yw'n ymddangos bod fersiwn benodol o'r canllawiau hyn ar gyfer Cymru, ac nid ydym yn gwybod ychwaith a oedd canllawiau DCLG wedi'u mabwysiadu'n eang yng Nghymru. Mewn ymchwil ddiweddar ymysg rhanddeiliaid ar ran Cartrefi Cymunedol Cymru cafwyd argymhelliad tebyg bod landlordiaid yn codi'r pwysigrwydd o dalu rhent pan wneir cais yn gyntaf am dai a'u bod yn ailbwyseisio hyn yn rheolaidd drwy gydol y broses dyrannu a gosod – newid hollbwysig mewn diwylliant i lawer gyda dyfodiad Credyd Cynhwysol (HQN Ltd., 2018).

Astudiaeth achos

Deall atebolrwydd – astudiaeth achos Linc Cymru

“At Linc Cymru rent in advance is encouraged although it is recognised that this is not always possible. The association will have conversations with tenants about why it is asking for this payment and if they are unable to provide this at the tenancy start they are encouraged to pay a little extra each time to clear any arrears.” (HQN Ltd., 2018: 9)

Ffordd arall i gyfleu negeseuon am dalu rhent yw darparu **hyfforddiant neu gwrs sefydlu** ar gyfer darpar denantiaid. Ymhlith yr enghreifftiau mewn astudiaethau achos yng Nghymru y mae'r defnydd o fideos You Tube (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam, Trevallis) a gweithdai 'Paratoi Tenantiaeth' (Bro Morgannwg) (HQN Ltd., 2018). Mae tystiolaeth o werthusiad o un o raglenni'r Gronfa Loteri Fawr yn Lloegr yn cadarnhau'r gwerth sydd mewn hyfforddiant cyn tenantiaeth i ddarpar denantiaid tai cymdeithasol, ar sail profiad nifer o brosiectau (gweler astudiaeth achos Minted isod). Ond mae'r dystiolaeth hefyd yn rhybuddio rhag y problemau a geir wrth ymgysylltu â thenantiaid newydd sydd eisoes wedi sicrhau tai ac a all fod yn llawer llai parod i dderbyn cymorth sydd â'r bwriad o'u helpu i gynnal eu tenantiaeth (Williams et al., 2017).

Astudiaeth achos

Hyfforddiant cyn tenantiaeth – astudiaeth achos Minted, Tameside ¹¹

“Robert and Lisa took part in the ‘Ready to Rent’ tenancy preparation course run by Minted in Tameside. They lived in supported accommodation and hoped to be offered a social housing property. They were referred to Minted by their landlord to access the Ready to Rent tenancy preparation course. The course consists of an individual assessment session followed by five two-hour workshops which explore the rights and responsibilities of the tenant, as well as practical skills such as sourcing furniture, managing household bills, and saving money. The Ready to Rent course made Robert feel more confident about taking on a tenancy, dealing with the bills and managing his own money issues without getting stressed.” (Williams et al., 2017: 33)

Yn fwy cyffredinol, mae'r defnydd o negeseuon testun, cyfryngau cymdeithasol ac ymgyrchoedd rhent yn cael ei argymhell i atgoffa tenantiaid pa mor bwysig yw talu rhent yn brydlon – ac i gysylltu'n fuan â thenantiaid sydd mewn ôl-ddyled i gynnig cyngor (HQN Ltd., 2018). Nid yw'n ymddangos bod unrhyw werthusiad annibynnol wedi'i gyhoeddi am y strategaethau hyn. Roedd adborth a gafwyd gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru yn rhan o'r adolygiad hwn o dystiolaeth yn dangos mai cymysg yw'r llwyddiant a gafwyd wrth ddefnyddio negeseuon testun i gysylltu â thenantiaid am daliadau rhent; ac mae tystiolaeth o'r system cyfiawnder troseddol hefyd yn tynnu sylw at y broblem o ddefnyddio rhifau ffôn symudol anghywir wrth anfon negeseuon testun i atgoffa tenantiaid (Chivers a Barnes, 2018). Fel y byddwn yn trafod isod, roedd Cymdeithas Tai Taf wedi treialu dulliau newydd o gysylltu â thenantiaid a oedd newydd fynd i ôl-ddyled, ac wedi cael bod llythyr

¹¹ Roedd Minted yn brosiect aml-asiantaeth o dan arweiniad Tameside Citizens Advice gyda phartneriaid a oedd yn cynnwys Cyngor Tameside a nifer o gymdeithasau tai.

diwygiedig yn fwy effeithiol na neges testun neu alwad ffôn (ond bod yr holl ddulliau hyn yn fwy effeithiol na'i llythyr safonol blaenorol).

Mewn cysylltiad â'r un pwnc, roedd tystiolaeth o werthusiad o raglen rheoli ôl-ddyledion a oedd yn cael ei rhedeg gan awdurdod tai cyhoeddus yn Awstralia wedi dangos bod tenantiaid yn aml yn dweud eu bod mewn dryswch ynghylch graddau ac achos eu hôl-ddyled (Rooftop Social, 2017) – canfyddiadau sydd wedi'u hadleisio gan wasanaethau cynghori ar ddyled yn y DU (CAP, 2018).¹² Roedd yn argymhell darparu cymorth cliriach a chynharach gan weithwyr tai a gweithwyr arbenigol, yn enwedig i denantiaid agored i niwed a oedd mewn perygl o ymddieithrio'n llwyr rhag cymorth (Rooftop Social, 2017). Yn y DU mae Protocol Treth Gyngor sy'n ceisio hyrwyddo arferion da mewn awdurdodau lleol yn argymhell darparu gwybodaeth glir a chyson i egluro sut mae biliau'n cael eu cyfrifo, ac i esbonio bod y dreth gyngor yn ddyled â blaenoriaeth a beth yw'r canlyniadau o beidio â'i thalu. Gorau oll, lle mae dinesydd mewn ôl-ddyled treth gyngor, os bydd y llythyr hefyd yn egluro sut a pha bryd y mae'r ddyled wedi cronni (Cyngor ar Bopeth a Chymdeithas Llywodraeth Leol, 2017).

Derbyn cymorth ariannol

Yn y DU yn 2015/2016 roedd gwerth £20 biliwn o fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd heb gael eu hawlio (www.entitledto.co.uk, 2017). Os na fydd pobl yn derbyn y cymorth ariannol y mae ganddynt hawl i'w gael, gallant ei chael yn anodd talu eu biliau a rhwymedigaethau, yn cynnwys rhent a'r dreth gyngor. Mae Sefydliad Resolution wedi amcangyfrif bod 300,000 o bobl sy'n ddi-waith neu ag enillion isel iawn ym Mhrydain yn mynd heb gymorth ariannol gan y wladwriaeth sy'n werth o leiaf £73 yr wythnos (Sefydliad Resolution, 2017).¹³ Mae'r elusen Turn2Us wedi adrodd bod nifer o resymau pam nad yw pobl yn hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w derbyn, yn cynnwys ymwybyddiaeth isel gyffredinol, y gallu i gael gafael ar wybodaeth, anawsterau wrth wneud cais a stigma (Turn2Us, 2018).

Mae asesiad diweddar gan Lywodraeth Cymru o'i Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CGDG) yn awgrymu mai rhwng 55% a 65% o deuluoedd ar incwm isel yng Nghymru sy'n derbyn cymorth o dan CGDG (Llywodraeth Cymru, 2018f). Mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl bod nifer sylweddol o deuluoedd isel eu hincwm nad ydynt yn derbyn y cymorth ariannol y mae ganddynt hawl i'w gael. Er mwyn ymateb i hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd i hybu ymwybyddiaeth o'r gwahanol fathau o gymorth sydd ar gael i deuluoedd – ymgyrch sy'n cynnwys posteri, deunydd ar sianeli digidol Llywodraeth Cymru a chyfryngau cymdeithasol penodol. Un o nodau'r ymgyrch yw cyfeirio ymholwyr at wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru, yn cynnwys gwiriwr cymhwysra CGDG (Llywodraeth Cymru, 2018f).

¹² Mae Greenall a Prosser (2017) wedi rhoi gwybod am ganfyddiadau tebyg mewn perthynas â dyledion treth gyngor, ar sail ymchwil gan Cyngor ar Bopeth.

¹³ Nid yw'r adroddiad yn darparu ffigurau ar gyfer Cymru.

Gyda golwg ar ddull gwahanol o weithredu, dangoswyd bod Swyddogion Hawlio Budd-daliadau yn cael effaith gadarnhaol o ran sicrhau bod dinasyddion yng Nghymru yn cael y cymorth treth gyngor a budd-dal tai y mae ganddynt hawl i'w gael pan fydd eu hamgylchiadau'n newid (KPMG ac Oxford Economics, 2010). Roedd y gwerthusiad yn dangos bod cyswllt personol a dargedwyd yn gweithio'n well na hysbysebu heb ei dargedu (fel taflenni neu hysbysebion radio); ac roedd yn pwysleisio pa mor bwysig oedd gweithio mewn partneriaeth yn lleol e.e. awdurdodau lleol yn gweithio gyda grwpiau cymunedol a meddygon teulu – canfyddiadau sydd wedi'u hategu gan dystiolaeth arall (Finn a Goodship, 2014). Ond nid yw dod â phartneriaid at ei gilydd yn creu partneriaeth – rhaid i'r partneriaid ymrwymo i gydweithio, a buddsoddi ynddo, os yw i ddod â budd i'r sefydliadau sy'n gysylltiedig a'r cynulleidfaoedd y maent yn eu targedu. (Williams et al., 2017; DWP, 2014a). Mae llwybrau atgyfeirio clir a di-dor rhwng sefydliadau sydd mewn partneriaeth yn bwysig hefyd, e.e. defnyddio trefniadau trosglwyddo 'cynnes' (DWP, 2014a).¹⁴

Mae'r adolygiad o'r dystiolaeth gan Finn a Goodship (2014) yn dangos y gwerth sydd mewn sicrhau bod cyngor (annibynnol) ar fudd-daliadau ar gael mewn lleoliadau lleol, hygyrch a dibynadwy fel ffordd effeithiol i sicrhau bod mwy o ddefnydd o gymorth ariannol: bydd hyn yn ei dro yn gallu helpu i roi teuluoedd incwm isel mewn sefyllfa ariannol fwy sefydlog a'u galluogi i gwrdd â'u biliau a'u rhwymedigaethau. Yn ogystal â hyn, mae HQN Ltd (2018) yn tynnu sylw at enghreifftiau o arfer dda ymysg darparwyr tai yng Nghymru sydd â thimau budd-daliadau mewnol. Er enghraifft, mae Cymdeithas Tai Cadwyn yn defnyddio swyddogion rhent i helpu tenantiaid i apelio yn erbyn penderfyniadau ar fudd-dal tai a herio gwallau neu ymgymryd â gwaith i gynyddu incwm.

Er mwyn rhoi syniad o'r gwerth economaidd dichonol sydd mewn cyngor ar fudd-daliadau, mae gwerthusiad o wasanaeth hawliau lles Cymorth Canser Macmillan wedi amcangyfrif bod pob £1 a wariwyd ar ddarparu'r gwasanaeth wedi rhoi gwerth £20.80 o ganlyniad i hawlio budd-daliadau, digollediadau a dyfarndaliadau (Y Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus, 2010).

Diwygio lles a gweinyddu budd-daliadau

Yn ogystal â deall atebolrwydd a derbyn cymorth ariannol, mae lefel budd-daliadau a chredydau treth a'r ffordd o'u gweinyddu hefyd yn gallu effeithio'n sylweddol ar sefyllfaoedd ariannol dinasyddion a'u gallu i dalu rhent, y dreth gyngor a biliau eraill sydd â blaenoriaeth.

Gyda golwg ar lefelau budd-daliadau, mae'r dreth ystafell wely a'r cap ar fudd-daliadau wedi effeithio ar faint y cymorth y mae hawlwyd yn ei gael i dalu eu rhent: gall hyn eu rhoi mewn sefyllfa lle maent yn gorfod talu'r gwahaniaeth rhwng eu budd-dal tai a'u rhent (Shelter Cymru, 2018). Os na allant dalu'r gwahaniaeth, gall ôl-ddyledion rhent godi o ganlyniad.

¹⁴ Mewn cynlluniau peilot Credyd Cynhwysol o dan arweiniad awdurdodau lleol, roedd y trefniadau trosglwyddo 'cynnes' yn golygu bod y cwsmer a'r partner yn bresennol wrth drosglwyddo'r cwsmer i'r partner er mwyn parhau â'r gwaith gyda'r cwsmer, yn hytrach na throsglwyddo 'oer' e.e. dim ond trosglwyddo'r papurau.

Mae'r cynllun Taliad Disgresiwn at Gostau Tai yn caniatáu i awdurdodau lleol helpu pobl gymwys sy'n ei chael yn anodd talu eu rhent. Yn 2017-18, roedd Cymru wedi gwario bron £10 miliwn (102% o'i dyraniad) ar y cynllun (DWP, 2018).

Mewn perthynas â gweinyddu budd-daliadau, mae derbyn budd-dal tai wedi'i nodi cyn hyn yn brif ffactor risg mewn achosion o droi allan, oherwydd anawsterau ac oedi wrth brosesu hawliadau (Pawson et al., 2010). Yn fwy diweddar, mae wedi'i amcangyfrif nad yw un ym mhob pump o hawlwr Credyd Cynhwysol yn derbyn eu taliad llawn yn brydlon (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2018). Mae'n bosibl bod hyn, ynghyd â'r diffygion o ran costau tai sydd wedi'u disgrifio uchod, yn helpu i egluro'r cynnydd mewn ôl-ddyledion rhent sydd wedi'u cofnodi gan landlordiaid cymdeithasol a phreifat. Mewn ymchwil ansoddol, roedd tenantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru wedi rhoi gwybod am oedi o bedair i wyth wythnos cyn derbyn taliadau Credyd Cynhwysol a oedd yn achosi gorbryder ac wedi golygu bod nifer o ymatebwyr wedi gorfod defnyddio banciau bwyd (Protheroe et al., 2017).

Bylchau a gwendidau mewn tystiolaeth

Mae corff gweddol fawr o dystiolaeth am ffyrdd i helpu dyledwyr i ddeall a rheoli dyledion rhent a threth gyngor, er nad yw'r rhan fwyaf ohono'n ymwneud yn benodol â dyledwyr a all fod yn agored iawn i niwed e.e. oherwydd problemau iechyd meddwl. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod yr holl ymyriadau hyn wedi'u gwerthuso felly ni allwn fod yn sicr eu bod yn gweithio a'i fod felly'n werth eu cyflwyno'n gyffredinol. Hefyd, nid yw'n glir a yw tystiolaeth o werthuso wedi'i hystyried wrth ddyfeisio cynlluniau newydd. Er enghraifft, mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai cyswllt personol a dargedwyd sy'n gweithio orau i gymell pobl i dderbyn cymorth ariannol, tra oedd Llywodraeth Cymru wedi dewis defnyddio hysbysebu heb ei dargedu yn ei hymgyrch ddiweddar i hybu ymwybyddiaeth o CGDG. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd cyfnod cyntaf yr ymgyrch yn cael ei werthuso, a'i bod yn bosibl y bydd rhagor o gyfnodau ymgyrchu a fydd yn cael eu targedu i fwy o raddau.

Atal dyledion rhag troi'n argyfwng

Mae data o arolwg o ddefnyddwyr yn dangos bod mwy na 40% o bobl sydd mewn dyled yn teimlo nad ydynt yn gallu siarad â'u credydwyr am eu problemau dyled. Mae cynifer ag un ym mhob pump o'r rheini sy'n ei chael yn anodd talu dyledion yn methu â chydabod eu bod mewn dyled; ac mae un ym mhob deg yn dweud nad ydynt yn pryderu amdani (Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, 2013). Ar ben hyn, dim ond lleiafrif bach o'r rheini sydd mewn dyled sy'n cael cyngor annibynnol (Wyman, 2018). Er ei bod yn bosibl y bydd eraill yn gallu gweithio gyda'u credydwyr i ddatrys eu hól-ddyled heb gymorth, mae hyn yn creu'r perygl o gytuno ar gwrs gweithredu anaddas, er enghraifft, taliad nad yw'n fforddiadwy. Yn aml bydd y rheini sy'n cael cymorth yn y pen draw yn aros am fisoedd neu flynyddoedd cyn hynny (CAP, 2017) ac mae'n bosibl mai dim ond ar ôl mynd i argyfwng mawr o ran dyled, fel cael yr hawliad terfynol am dâl neu ymweliad gan y beiliaid, y byddant yn chwilio am

gymorth. Mae dimensiwn rhywedd hefyd i ddyled ddifrifol: amcangyfrifwyd bod tua dwy ran o dair o'r bobl sydd â phroblemau dyled difrifol yn y DU yn fenywod (Bennett a Daly, 2014).

Yn y cyd-destun hwn, mae'n ymddangos bod cymhelliad cryf i sefydliadau fynd ati'n rhagweithiol i adnabod pobl sydd mewn perygl o fynd i ôl-ddyled neu sydd mewn dyled eisoes – oherwydd, fel y mae'r dystiolaeth uchod yn dangos, mae'n bosibl fel arall na fydd pobl yn cael cymorth nes eu bod mewn argyfwng. Os bydd sefydliadau'n gallu canfod problemau posibl cyn i argyfwng godi ac ymgysylltu â phobl bryd hynny, gellir cael gwell cyfle i sicrhau canlyniad da i'r credydwr a'r dyledwr, yn anad dim drwy osgoi'r costau ariannol a chymdeithasol diangen o ddyled gynyddol (Greenall a Prosser, 2017; Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, 2017a; StepChange, 2014). Er enghraifft, mae canllawiau DCLG ar ôl-ddyledion rhent a gyhoeddwyd yn 2006 yn sôn am annog tenantiaid i hysbysu landlordiaid am unrhyw newidiadau yn eu hamgylchiadau personol ac unrhyw debygolrwydd o fethu ad-daliad.

Fodd bynnag, haws dweud na gwneud yw hi o ran adnabod ac ymgysylltu'n gynnar â dinasyddion sydd mewn dyled. Mewn ymchwil ddiweddar, dangoswyd bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn cydnabod y gwerth sydd mewn cymryd camau cynnar o ran adnabod ac atal ar gyfer pobl ag ôl-ddyledion treth gyngor ond, oherwydd prinder adnoddau, roeddent yn gweithredu'n ymatebol gan mwyaf yn hytrach nag yn rhagweithiol ac yn dibynnu ar gamau gan unigolion i gysylltu â nhw (Greenall a Prosser, 2017). Mae darparwyr cyngor annibynnol ar ddyled hefyd yn ei chael yn anodd cymell pobl i ofyn am gymorth yn gynharach. Isod rydym yn adolygu tystiolaeth o ymgysylltu effeithiol drwy dulliau newydd o gyfathrebu ysgrifenedig sy'n meithrin ymddiriedaeth a chysylltu rhagweithiol.

Cyfathrebu ysgrifenedig

Ar sail rhaglen o hap-dreialon wedi'u rheoli gyda darparwyr tai, mae rhywfaint o dystiolaeth bod tenantiaid mewn ôl-ddyled rhent yn fwy tebygol o gysylltu â darparwyr tai os byddant yn newid eu dull o gyfathrebu â thenantiaid. Amcan yr hap-dreialon wedi'u rheoli oedd lleihau ôl-ddyled rhent ymysg tenantiaid yn gyffredinol, yn hytrach nag ymgysylltu â thenantiaid agored i niwed a'u cynorthwyo, felly nid ydym yn gwybod pa mor effeithiol y gall y dulliau hyn fod ar gyfer tenantiaid agored i niwed.

Roedd un hap-dreial wedi'i reoli yn dangos bod 24% yn fwy o denantiaid (o'u cymharu â grŵp rheoli) wedi cysylltu â'u landlord ar ôl cael llythyr symlach a diwygiedig am ôl-ddyledion a oedd yn cyfleu cymhelliad negyddol clir (h.y. y perygl o golli eu cartref) (Johnson ac O'Halloran, 2017). Mae Cymdeithas Tai Taf wedi rhoi gwybod am brofiad tebyg, lle'r oedd llythyr ôl-ddyled Cam 1 diwygiedig (gweler isod) yn fwy effeithiol o ran ysgogi cyswllt gan denantiaid a/neu ad-dalu ôl-ddyledion na'i llythyr safonol, neges testun neu alwad ffôn.

Astudiaeth achos

Llythyr ôl-ddyled Cam 1 diwygiedig Cymdeithas Tai Taf

Roedd y llythyr diwygiedig yn rhoi cysyniadau economeg ymddygiadol ar waith:

- Defnyddio lliw i ddal y llygad;
- Diofyn – roedd yn cynnig dau opsiwn yn unig i'r tenant i ddelio ag ôl-ddyledion ac un opsiwn ar gyfer talu;
- Amlygrwydd – roedd yn defnyddio iaith fwy cynnil a llai anffurfiol;
- Cymhellion – roedd yn rhoi gwybod am y buddion y gallai tenantiaid eu colli drwy fod mewn ôl-ddyled.
- Ymrwymiad – roedd yn cynghori tenantiaid i glirio'r ôl-ddyled neu gysylltu erbyn dyddiad penodedig.

(Thomas a Dowdall, dim dyddiad)

Fodd bynnag, nid yw cyfathrebu ysgrifenedig yn addas i bawb. Mewn ymchwil ansoddol, roedd hawlwr Credyd Cynhwysol yng Nghymru wedi rhoi gwybod bod llythyrau ôl-ddyledion rhent yn eu hysgogi i beidio â chysylltu â'u darparwr tai, ac wedi nodi bod llythrennedd yn rhwystr mawr rhag ymgysylltu. Mae'r awduron yn awgrymu defnyddio gwybodaeth graffig fel dewis posibl yn lle llythyrau (Protheroe et al., 2017).

Meithrin ymddiriedaeth

Mae ymchwil arall yn tynnu sylw at y pwysigrwydd o feithrin ymddiriedaeth wrth ymgysylltu â dinasyddion ac adnabod problemau posibl yn gynnar. Er enghraifft, yn rhan o'i gwaith cyn tenantiaeth, mae Cymdeithas Tai Teulu yn cyflwyno swyddogion tai i'r holl denantiaid newydd i'w helpu i feithrin perthynas a all ei gwneud yn fwy tebygol i denantiaid drafod unrhyw broblemau rhent yn gynnar, fel y gellir cynnig cymorth cyn i'r ôl-ddyledion gynyddu (HQN Ltd., 2018). Roedd ymchwil gan Shelter Cymru wedi cael bod tenantiaid agored i niwed yn gweld gwerth yn y cyfle i weithiwr iechyd meddwl eirioli ar eu rhan gyda'u landlord, ac mewn ymagwedd sensitif a chydymdeimladol gan landlordiaid yn eu cyfathrebiadau (Shelter Cymru, 2016). Mae'r un astudiaeth yn dadlau, yn achos tenantiaid agored i niwed, y gall fod angen i ddarparwyr tai ailddiffinio eu syniadau am 'ymgysylltu', addasu eu disgwyliadau, ac ystyried rhoi prawf ar set o ymatebion yn hytrach na gweithredu yn yr un modd gyda phawb.

Allgymorth rhagweithiol

Mae tystiolaeth o werthusiadau o gynlluniau peilot Cymorth Cynhwysol y DWP a ddarperir yn lleol (DWP, 2014b) ¹⁵ yn dangos bod allgymorth rhagweithiol yn effeithiol o ran targedu pobl

¹⁵ Roedd y treialon yn rhoi prawf ar ddulliau newydd o adnabod ac ymgysylltu â hawlwr a'u cynorthwyo lle mae arnynt angen cymorth i ddelio â chyllidebu personol neu gymorth digidol, i'w galluogi i hawlio Credyd Cynhwysol.

sydd â dyledion problemus (a all gynnwys ôl-ddyledion rhent neu ddyled treth gyngor) a fyddai'n elwa o gael Cymorth Cynhwysol – yn hytrach nag aros iddyn nhw ddod i gysylltiad. Roedd cydweithio â phartneriaid yn elfen bwysig yn yr allgymorth rhagweithiol hwn, fel yr oedd cyswllt wyneb yn wyneb â staff gwybodus a hawdd sgwrsio â nhw i gymell hawlwy agored i niwed i ddatgelu gwybodaeth a meithrin ymddiriedaeth (Bennett et al., 2016). Y neges i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yw mai dull personol anfeirniadol sy'n gweithio orau wrth ymgysylltu â thenantiaid agored i niwed (HQN Ltd., 2018; Bennett et al., 2016).

Gwelir dulliau mwy soffistigedig (a drud) o adnabod problemau'n gynnar yn y sector gwasanaethau ariannol lle mae rhai cwmnïau, er enghraifft, yn defnyddio data gwirio credyd (fel rhai am ddiffygdalu ac ôl-ddyled) i ddeall sefyllfa ariannol gyffredinol y cwsmer. Gellir cyfuno hyn hefyd â sgôr risg fewnol sy'n ystyried patrymau defnyddio cyfrifon (Awdurdod Ymddygiad Ariannol, 2016). Er hynny, mae adnabod ôl-ddyledion yn gynnar ac ymgysylltu rhagweithiol â chwsmeriaid yn parhau'n her i nifer mawr o gwmnïau.

Mewn adroddiad diweddar gan Ofgem (Ofgem, 2017), nodwyd bod cymorth i ddefnyddwyr agored i niwed yn faes sy'n parhau i beri pryder, er bod darparwyr ynni wedi gwneud rhywfaint o gynnydd ar ddarparu gwell cymorth, er enghraifft, drwy ddatblygu offer asesu i wella'r gallu i adnabod pobl sy'n agored i niwed. Er enghraifft, yn 2016, roedd E.ON wedi hyfforddi cynghorwyr rheng flaen i adnabod arwyddion o drafferthion ariannol drwy drigeri geiriol, holi rhagweithiol a dangosyddion cyfrifon. Mae'r Llinell Ddyled Genedlaethol hefyd wedi cynhyrchu taflen wybodaeth am ddelio â dyled trethi dŵr.¹⁶

Mae ymchwil ar y cyd gan Ofgem ac Ofwat wedi dangos y byddai mwy o rannu ar ddata anariannol rhwng darparwyr ynni a dŵr yn gallu gwella dulliau o adnabod a chynorthwyo cwsmeriaid mewn sefyllfaoedd lle maent yn agored i niwed (Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU, 2017).

Bylchau a gwendidau mewn tystiolaeth

Mae'r sylfaen dystiolaeth am atal dyledion rhag troi'n argyfwng yn weddol gadarn, ac mae tystiolaeth eithaf helaeth o werthusiadau y gallai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ei hystyried wrth wneud penderfyniadau ar ddarparu gwasanaethau a strategaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn ymwneud â dinasyddion yn gyffredinol, er bod rhai astudiaethau yn canolbwyntio ar y rheini sydd mewn sefyllfaoedd lle maent yn agored iawn i niwed.

Roedd y treialon hefyd wedi edrych ar fodelau gwahanol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth rhwng Awdurdodau Lleol, Canolfan Byd Gwaith a sefydliadau sy'n gallu darparu cymorth pontio.

¹⁶<https://www.nationaldebtlive.org/EW/factsheets/Pages/waterratesandwatertrustfunds/waterarrearsadvice.aspx>

Helpu dyledwyr agored i niwed i dalu (os gallant)

Mae'r dystiolaeth a gyhoeddwyd yn dangos nifer o wahanol ffyrdd i awdurdodau lleol a darparwyr tai ddarparu cymorth i bobl sydd mewn dyled er mwyn talu (os gallant) neu gael cymorth i gael rhyddhad o ddyled – drwy eu helpu i wneud trefniadau hyblyg a fforddiadwy i ad-dalu, hyd at ddarparu mynediad at gyngor annibynnol ar ddyled a chynigion diweddar gan lywodraeth y DU ar gyfer cynnig 'seibiant' i roi cyfle i bobl gael cyngor o'r fath. Mae tystiolaeth yn dod i'r golwg hefyd am ddulliau arloesol fel cynlluniau peilot ar gyfer hyblygrwydd rhenti a thalu anariannol sydd wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol, er eu bod ar raddfa fach.

Trefniadau talu hyblyg

Er bod 'pwniadau' ymddygiadol (fel y rheini sydd wedi'u disgrifio uchod ar gyfer cyfathrebu ysgrifenedig) yn gallu bod yn effeithiol wrth ymgysylltu â phobl sydd mewn cyfnod cynnar o ôl-ddyled, mae trefniadau talu mwy hyblyg yn gallu helpu eraill i glirio eu dyled. Mae protocol treth gyngor sy'n hyrwyddo arferion da ymysg awdurdodau lleol yn awgrymu cynnig dyddiadau talu gwahanol o fewn y mis; gwasgaru taliadau dros gyfnod o 12 mis; a hyd yn oed talu symiau gwahanol gan bobl sydd ag incwm cyfnewidiol (Cyngor ar Bopeth a Chymdeithas Llywodraeth Leol, 2017).

Er nad yw'n ymddangos bod unrhyw awdurdodau lleol yng Nghymru wedi mabwysiadu'r protocol hwn, mae fersiwn ar gyfer awdurdodau yng Nghymru yn cael ei datblygu (Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol, 2017). Cawsom ein hysbysu bod nifer o awdurdodau lleol wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynnig sy'n well o ran adlewyrchu'r cyddestun a'r arferion da a geir eisoes yng Nghymru, ac mae'r protocol yn cael ei gyhoeddi'n ffurfiol yn fuan. Yn y cyfamser, dywedir bod y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yng Nghymru yn cynnig trefniadau talu hyblyg ar gyfer dyledion treth gyngor os bydd yr unigolyn yn cysylltu â nhw – er y gall hyn amrywio yn ôl a yw'r unigolyn wedi ymgysylltu o'r blaen â'r awdurdod lleol ynghylch y ddyled. Mae rhai awdurdodau lleol yn cynnig debydau uniongyrchol wythnosol a dyddiadau lluosog i geisio sicrhau bod debydau uniongyrchol y dreth gyngor yn cyd-fynd â'r gwahanol ddiwrnodau talu sydd gan bobl (Greenall a Prosser, 2017).

Mae canllawiau tebyg ar gael ar gyfer y DU gyfan ar drefniadau talu hyblyg ar gyfer ôl-ddyledion rhent – er enghraifft, dylai landlordiaid ddarparu dewis o opsiynau i denantiaid ar gyfer taliadau rhent a'r rheini'n rhai hyblyg, cyfleus a hawdd eu defnyddio (DCLG, 2006). Yn fwy diweddar, mae un gymdeithas dai fawr yn Lloegr wedi treialu cynllun Hyblygrwydd Rhent â Chymorth a oedd yn caniatáu i denantiaid cymwys sefydlu amserlen bersonol ar gyfer taliadau rhent a oedd yn golygu eu bod yn gallu talu llai neu fwy na'u rhent ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn. Yn y cynllun peilot, roedd y tenantiaid hyn hefyd wedi cael

cymorth un-i-un a chyngor ar fudd-daliadau. Er bod y cynllun peilot ar raddfa fach, roedd yn dangos canlyniadau cadarnhaol, yn cynnwys llai o ôl-ddyledion rhent (gweler yr astudiaeth achos isod).

Astudiaeth achos

Cynllun peilot Hyblygrwydd Rhent â Chymorth

Roedd tenantiaid yn gymwys i gymryd rhan yn y cynllun peilot os nad oeddent yn derbyn Budd-dal Tai llawn; os oedd ganddynt blant dibynnol; ac os oedd ganddynt ôl-ddyledion rhent o hyd at £500 neu wedi bod mewn ôl-ddyled rhent rywdro yn ystod y 12 mis blaenorol. Cafodd 59 o denantiaid eu recriwtio i'r cynllun peilot, y rhan fwyaf ohonynt yn rhieni sengl mewn gwaith. Ar sail asesiad o 11 o denantiaid a gymerodd ran drwy gydol y 12 mis yr oedd y cynllun yn para, roedd wyth wedi lleihau eu hól-ddyled rhent (mwy nag mewn grŵp rheoli o denantiaid); tra oedd y tri arall wedi lleihau eu hól-ddyled (llai nag mewn grŵp rheoli o denantiaid). Roedd y tenantiaid a gymerodd ran wedi rhoi gwybod hefyd am newidiadau cadarnhaol yn eu hagweddau at reoli arian a chynllunio i gyrraedd nodau ariannol. (Gibbons, 2018)

Trefniadau talu fforddiadwy

Er mwyn i ddinasyddion gadw at drefniadau i ad-dalu dyledion rhent neu dreth gyngor, rhaid i'r taliadau fod yn fforddiadwy. Un offeryn ar gyfer cyflawni hyn yw'r Datganiad Ariannol Safonol (DAS), sydd i'w ddefnyddio fel datganiad ariannol cyffredinol i grynhoi manylion am incwm ac alldaliadau'r unigolyn ac unrhyw ddyledion sydd ganddo. Mae'r DAS yn cael ei ddefnyddio'n bennaf gan gynghorwyr ar ddyled a sefydliadau eraill sy'n helpu pobl sydd mewn ôl-ddyled (Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, dim dyddiad).

Ychydig o ddefnydd a gafwyd o'r DAS gan awdurdodau lleol yng Nghymru.¹⁷ Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yng Nghymru wedi rhoi gwybod eu bod yn defnyddio eu fersiwn eu hunain o'r DAS i bennu ad-daliadau am ddyled y dreth gyngor, e.e. wedi'u seilio ar gostau lleol (Greenall a Prosser, 2017). Nid oes data ar gael i ddangos a yw'r cyfraddau parhau ar gyfer trefniadau ad-dalu yn amrywio yn ôl yr offeryn incwm a gwariant a ddefnyddir.

Mae tua 15 o'r 35 o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig presennol yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2018e) yn aelodau o drefniant y DAS, tra bydd eraill yn defnyddio dulliau gwahanol o bosibl i gyfrifo'r gallu i fforddio ad-daliadau ar sail incwm ac alldaliadau'r tenant. Roedd tystiolaeth ansoddol a gasglwyd oddi wrth denantiaid gan Shelter Cymru yn cynnwys enghreifftiau o landlordiaid a oedd yn pennu ad-daliadau am ôl-ddyled rhent a oedd

¹⁷ O'r 22 o awdurdodau unedol yng Nghymru, roedd yn ymddangos bod naw ohonynt yn aelodau o drefniant y Datganiad Ariannol Safonol ym mis Gorffennaf 2018. Mae'n bosibl bod aelodau'n defnyddio'r DAS neu'n cymryd camau i'w fabwysiadu. Ffynhonnell: <https://sfs.moneyadviceservice.org.uk/en/what-is-the-standard-financial-statement/public-organisations>

yn anymarferol a heb roi ystyriaeth briodol i sefyllfa ariannol y tenant. O ganlyniad i hyn, roedd tenantiaid wedi ymddieithrio gan eu bod yn gwybod na fyddent yn gallu cydymffurfio â'r trefniant (Shelter Cymru, 2016).

Opsiynau talu anariannol

Yn Awstralia, mae Bridge Housing wedi treialu dull arloesol o ddelio ag ôl-ddyledion rhent. Roedd y darparwr tai hwn wedi caniatáu i denantiaid sydd mewn perygl mawr o golli eu tenantiaeth (oherwydd ôl-ddyledion rhent cyson neu uchel iawn) gymryd rhan mewn gweithgareddau fel gwaith gwirfoddol, cyrsiau addysgol neu driniaethau cysylltiedig ag iechyd i gwrdd â rhan o'u hatebolrwydd am ôl-ddyled. Y cysylltiad rhwng yr amser a dreuliodd a'r ôl-ddyled oedd un awr o weithgarwch a gytunwyd = un diwrnod o ddyled rhent. Roedd y cynllun yn gweithio ar sail bersonol a theimlwyd bod hyn yn caniatáu i denantiaid ailymgysylltu â'u landlord ac asiantaethau sydd mewn partneriaeth ag ef.

Roedd wedi bod yn fwy anodd na'r disgwyl cynnwys tenantiaid yn y cynllun peilot, felly dim ond 13 o denantiaid a gymerodd ran, a dim ond 10 a gafodd eu gwerthuso. Gan gofio hyn, roedd y cynllun peilot wedi dangos rhai canlyniadau ariannol ac ariannol cadarnhaol er gwaethaf hynny:

- Talwyd 29% o'r ôl-ddyledion drwy weithgareddau anariannol ac roedd tenantiaid wedi talu 22% o'r arian at eu hól-ddyled yn ystod y cynllun peilot;
- Roedd tenantiaid a gymerodd ran yn y cynllun wedi cadw eu tenantiaeth hyd ddiwedd y cynllun peilot;
- Roedd yr opsiwn i ad-dalu ôl-ddyledion rhent mewn ffyrdd ariannol yn rhoi gobaith i denantiaid a chafodd effaith seicolegol gadarnhaol (Rooftop Social, 2017).

Nid oeddem wedi dod o hyd i unrhyw enghreifftiau o gynlluniau talu anariannol tebyg ar waith yng Nghymru nac yng ngweddill y DU. Pe byddai cynllun o'r fath yn cael ei gyflwyno yn y DU, byddai'n rhaid ystyried y rhyngweithio rhyngddo a'r system budd-daliadau. Ar hyn o bryd, caniateir i bobl sy'n derbyn budd-daliadau ymgymryd â gweithgarwch gwirfoddol am gynifer o oriau ag y maent yn dymuno, ar yr amod ei fod yn gyson â diffiniad y llywodraeth o weithgarwch gwirfoddol, bod yr unigolyn yn cadw at y rheolau sy'n gymwys i'r budd-dal/budd-daliadau cysylltiedig ac mai'r unig dâl y mae'n ei gael yw ad-daliad am gostau.¹⁸

Mae cynlluniau bancio amser yn fodel arall ar gyfer cyfranogi gan ddinasyddion. Mae dinasyddion sy'n cymryd rhan yng ngwaith asiantaethau cyhoeddus a chymunedol yn cael cydnabyddiaeth am eu hamser drwy roi credydau bancio amser. Gallant ddefnyddio'r

¹⁸ Mae manylion ar gael yn <https://www.ncvo.org.uk/ncvo-volunteering/volunteering-and-benefits>

credydau hyn i gael mynediad i weithgareddau cymdeithasol, diwylliannol ac addysgol; ni allant eu defnyddio i glirio ôl-ddyled.¹⁹

Y gallu i gael cyngor annibynnol ar ddyled

Mae'r gallu i gael cyngor annibynnol ar ddyled yn opsiwn arall y bydd awdurdodau lleol a darparwyr tai yn gallu ei ystyried wrth weithio gyda phobl sydd mewn ôl-ddyled rhent neu dreth gyngor. Mae cyngor ar ddyled yn cael effeithiau economaidd sylweddol ar bobl sydd mewn dyled, eu credydwyr a gwasanaethau cyhoeddus:

- Yn gyffredinol, mae wedi'i amcangyfrif bod cyngor ar ddyled yn cael effaith economaidd gadarnhaol sy'n werth £300-570 miliwn y flwyddyn yn y DU;
- Dangoswyd bod y cyfraddau adennill gwell i gredydwyr a'r costau llai am adennill yn dod â budd net o £135-237 miliwn y flwyddyn;
- Mae wedi'i amcangyfrif ei fod yn cael effaith lesol ar iechyd sy'n gyfwerth â £74-145 miliwn;
- Mae'n bosibl bod cyngor ar ddyled yn cyfrannu rhwng £67 a £137 miliwn y flwyddyn at wella cynhyrchiant (Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol ac Europe Economics, 2018a).

Yn ogystal â hyn, mae unigolion sydd mewn dyled fawr (â chymhareb dyled i incwm o fwy nag 1) nad ydynt yn cael cyngor yn llawer mwy tebygol o fethu â datrys eu problemau dyled na'r rheini sy'n cael cyngor (Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol ac Europe Economics, 2018b).

Mae'n ymddangos bod mynediad at gyngor annibynnol ar ddyled yn ffordd gyffredin i awdurdodau lleol geisio helpu dyledwyr agored i niwed i dalu os gallant – neu i gael rhyddhad o ddyled os na allant fforddio talu. Mae wedi'i amcangyfrif bod 97% o awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr yn cyfeirio dinasyddion at wasanaethau cyngor ar ddyled, a bod y rhan fwyaf ohonynt yn eu cyfeirio at Gyngor ar Bopeth (Money Advice Trust, 2017). Gall fod yn llai hawdd i ddinasyddion gael gafael ar gyngor ar ddyled eu hunain – er enghraifft, byddai awdurdodau lleol yn gallu gwella eu gwybodaeth ar-lein ar gyfer cyfeirio at asiantaethau cyngor ar ddyled, gan fod astudiaeth o ôl-ddyledion treth gyngor wedi cael bod hyn yn aneglur neu'n ddiffygiol (Greenall a Prosser, 2017). Mewn cynlluniau peilot ar gyfer Credyd Cynhwysol, roedd y ffyrdd i beri i bobl dderbyn cyngor ar ddyled yn cynnwys prosesau atgyfeirio clir a chyson a manau cyfrinachol i gael cyngor ar ddyled (DWP, 2014a).

Mae astudiaethau achos o arferion da mewn awdurdodau lleol yn cynnwys cydleoeli swyddogion treth gyngor yr awdurdod lleol mewn swyddfeydd Cyngor ar Bopeth: roedd hyn wedi arwain at gynnydd o 66% yn yr ymgysylltu â phreswylwyr anodd eu cyrraedd, ac at

¹⁹ <https://www.timebankingwales.org.uk/>

dalur dreth gyngor gan 20% o'r tenantiaid hynny a oedd wedi ymddieithrio cyn hynny a'r 80% arall yn mynd drwy'r gwasanaeth asesu a chymorth (Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, 2017a). Yn ystod 2018, bu'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gynhyrchu pecyn arfer dda pwrpasol ar gyfer y sector i ddangos ffyrdd effeithiol i gydweithio â gwasanaethau cyngor ar ddyled.

Yng nghyd-destun diwygio lles, mae Comisiwn Low ar ddyfodol cyfraith lles cymdeithasol wedi cymhell rhagor o ddatblygiadau gan gymdeithasau tai i sicrhau bod eu tenantiaid yn gallu cael cyngor da, yn cynnwys cyngor ar ddyled (Comisiwn Low, 2015). Un enghraifft o arfer dda mewn cymdeithas dai yw Tai Gwalia, lle mae tîm cynghori mewnol yn atgyfeirio tenantiaid i bartneriaid trydydd parti sy'n darparu cyngor yn ei swyddfeydd. Mae wedi rhoi gwybod bod 81% o denantiaid nad oeddent yn ymdopi â'u cyfrifon rhent cyn eu hatgyfeirio i drydydd parti wedi gallu rheoli eu cyfrif yn llwyddiannus wedyn (HQN Ltd., 2018). Mae Williams et al. (2017) yn darparu astudiaethau achos eraill o gymdeithasau tai a oedd wedi darparu cyngor ar ddyled yn llwyddiannus mewn partneriaeth â sefydliadau allanol ac maent yn disgrifio rhai o'r ffactorau allweddol mewn gwaith effeithiol rhwng partneriaid.

Mae tystiolaeth arall, a gafwyd o'r cynlluniau peilot ar Gredyd Cynhwysol o dan arweiniad awdurdodau lleol, yn dangos pa mor bwysig yw cael manau cyfrinachol lle mae pobl yn gallu bod yn gyfforddus wrth drafod eu problemau dyled. Roedd y gwerthusiad yn dangos bod pobl yn pryderu am gael eu gweld gan ffrindiau a chymdogion yn derbyn gwasanaethau cysylltiedig ag arian neu ddyled. Oherwydd hyn, cafwyd presenoldeb gwael mewn gwasanaeth allgymorth dyled a oedd ar gael mewn canolfan gymunedol ar adeg pan nad oedd gweithgareddau eraill yn digwydd yno, gan fod pobl yn teimlo eu bod yn tynnu sylw atynt eu hunain wrth fynd i mewn i'r adeilad (DWP, 2014a).

Seibiant

Yn achos dinasyddion sy'n gallu fforddio gwneud ad-daliadau drwy drefniant ad-dalu a wnaethant eu hunain gyda'u credydwr (yn cynnwys awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig), nid oes sicrwydd y bydd y credydwyr yn atal camau gorfodi neu'n peidio â chodi ffioedd neu log; neu na fyddant yn ailgychwyn camau gorfodi a chodi ffioedd eto ar ôl cyfnod o beidio â gwneud hynny. Er mwyn cynnig rhywfaint o sicrwydd ac amddiffyniad i bobl sydd yn y sefyllfa hon, cafwyd galwadau am ddarparu seibiant statudol, gan gynnwys galwad gan Gymdeithas y Plant.²⁰

Roedd Llywodraeth bresennol y DU wedi ymrwmo yn ei manifesto etholiad yn 2017 i gyflwyno cynllun seibiant er mwyn rhoi'r hawl i bobl sydd mewn dyled broblemus ddifrifol i gael amddiffyniadau cyfreithiol rhag eu credydwr am hyd at chwe wythnos, fel y gallent gael

²⁰ <https://www.childrenssociety.org.uk/what-you-can-do/campaign-for-change/breathing-space>

cyngor ar ddyled a gwneud cytundeb cynaliadwy i ddatrys eu dyled. Yn dilyn galwad am dystiolaeth, cyhoeddodd gynnig polisi ar gyfer ymgynghori yn hydref 2018. Mae'n bwysig nodi bod ymatebwyr i'r alwad am dystiolaeth yn cytuno gan mwyaf y dylai holl ddyledion yr unigolyn (heblaw am rai eithriadau) gael eu cynnwys yn y seibiant – sy'n golygu cynnwys ôl-ddyledion rhent a threth gyngor sy'n ddyledus i awdurdodau lleol (Trysorlys EM, 2018).

Yn ogystal â hyn, mae'r Sefydliad Polisi Arian ac Iechyd Meddwl wedi ymgychu'n llwyddiannus i sicrhau bod pobl sydd mewn dyled ddifrifol sydd mewn ysbyty neu o dan ofal tîm argyfwng cymunedol yn gymwys i gael seibiant heb orfod cael cyngor ar ddyled. (Bond et al., 2018; Sefydliad Polisi Arian ac Iechyd Meddwl, 2018)

Bylchau a gwendidau mewn tystiolaeth

Mae corff da o dystiolaeth am y gwahanol ffyrdd y mae awdurdodau lleol a darparwyr tai yn helpu pobl sydd mewn dyled i dalu (os gallant) neu i gael cymorth i gael rhyddhad o ddyled. Mae'n cynnwys enghreifftiau o arferion da a gwerthusiadau. Fel y nodwyd, nid oes data ar hyn o bryd i ddangos a yw cyfraddau parhau ar gyfer trefniadau ad-dalu yn amrywio yn ôl yr offeryn incwm a gwariant a ddefnyddir. Nid oes nemor ddim tystiolaeth am bersectif y dinesydd ychwaith – er bod rhai o'r ymyriadau hyn yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol o ran ad-dalu ôl-ddyled, beth yw profiad y tenant neu'r talwr treth gyngor?

Cynorthwyo dyledwyr agored i niwed sy'n wynebu camau gorfodi

Mae carcharu am ddyledion treth gyngor a throi allan o ganlyniad i ôl-ddyled rhent yn gamau y troir atynt yn olaf ym mhob achos a hynny, yn anad dim, oherwydd eu costau ariannol a chymdeithasol, sy'n cael eu hysgwyddo gan ddinasyddion, eu plant a'u teuluoedd, awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, yn ogystal â chyrrff cyhoeddus eraill mewn rhai achosion. Mae canllawiau'r DCLG i Loegr ar ôl-ddyledion rhent a gyhoeddwyd yn 2006 yn nodi, er enghraifft, y dylai landlordiaid barhau i negodi ar gyfer ad-dalu ôl-ddyledion ochr yn ochr ag unrhyw gamau cyfreithiol a gymerir i geisio osgoi troi tenantiaid allan (DCLG, 2006).

Roedd ymchwil flaenorol i drefniadau ar gyfer casglu'r dreth gyngor yng Nghymru, Lloegr a'r Alban wedi dangos bod barn gymysg ymysg awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr am effeithiolrwydd y bygythiad i anfon rhywun i'r carchar fel modd i sicrhau tâl, a phrin iawn oedd y defnydd o'r sancsiwn hwn (Gweithrediaeth yr Alban, 1999, tt. 103-7). Yn yr Alban, mae Deddf Dyledwyr (yr Alban) 1987 wedi dileu'r bygythiad o garcharu am beidio â thalu trethi cyngor neu unrhyw dreth (Yr Alban, 1987). Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi ei bod yn bwriadu dileu carcharu yn sancsiwn am beidio â thalu'r dreth gyngor.

Astudiaeth achos

Cost carcharu a throi allan

Y gost gyfartalog flynyddol am le mewn carchar yng Nghymru a Lloegr yw £35,182 – neu bron £3,000 y mis (Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, 2017). Mewn cymhariaeth â hynny, y ddyled gyfartalog am y dreth gyngor mewn camau i garcharu yw £2,313 (Sefydliad Cynghorwyr Arian a PayPlan, 2017). Yr amcangyfrif o gost troi allan gan landlord cymdeithasol cofrestredig i economi Cymru yw £26,600 am bob achos o droi allan; a £8,200 am bob achos o droi allan i landlord cymdeithasol. (Shelter Cymru, 2016)

O'i gymharu â chymau blaenorol yn y 'cylch bywyd', mae ein tystiolaeth am y bygythiad o gymryd camau gorfodi yn llai cadarnhaol, gan fod pryderon ynghylch y gallu i gael cymorth annibynnol ac ynghylch gweithredu gwael ar brotocolau arfer dda sy'n ceisio helpu ac amddiffyn pobl sydd mewn dyled.

Y gallu i gael cyngor cyfreithiol

Dangoswyd bod y gallu i gael cyngor cyfreithiol yn gynnar yn arwain at ddatrys problemau cyfreithiol yn gyflymach ac am lai o gost (Ipsos MORI, 2017). Er hynny, daeth yn fwy anodd i ddinasyddion gael gafaél ar gyngor cyfreithiol yn dilyn newidiadau mewn cymorth cyfreithiol yn 2012/13 o dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd 2012. Ers hynny, ni chafwyd cyllid cymorth cyfreithiol ar gyfer cyngor ar fudd-daliadau lles nac ar gyfer y rhan fwyaf o broblemau dyled (fel dyled treth gyngor). Ym maes tai, mae cymorth cyfreithiol ar gael i ddinasyddion cymwys sy'n wynebu camau i adfeddiannu cartref ar rent, ond dim ond pan ydynt ar fin colli'r cartref, a'r landlord wedi gwneud cais am orchymyn adennill mediant. Mae hefyd yn bosibl cael cymorth ar gyfer troi allan o'r cartref yn gyfreithlon neu anghyfreithlon.

Mae Cymdeithas y Cyfreithwyr wedi adrodd, am chwarter olaf 2015-16, fod 17 y cant yn llai o bobl wedi cael help drwy gymorth cyfreithiol ar gyfer mater tai nag yn yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol (Cymdeithas y Cyfreithwyr, 2018a). Mae tystiolaeth hefyd, oherwydd y ffordd y mae'r prawf modd am gymorth cyfreithiol yn gweithio, fod pobl ar incwm isel yn cael eu hallgáu rhag cael cymorth cyfreithiol, yn cynnwys hynny ar gyfer materion tai fel ymladd yn erbyn camau i droi allan (Cymdeithas y Cyfreithwyr, 2018b). Mewn meysydd cyfreithiol sydd bellach y tu allan i gwmpas cymorth cyfreithiol (fel dyled nad yw'n ymwneud â thai a budd-daliadau lles) rhaid i bobl un ai talu am eu cyngor cyfreithiol eu hunain, eu cynrychioli eu hunain neu gael eu hallgáu'n gyfan gwbl o'r system gyfiawnder (Cymdeithas y Cyfreithwyr, 2017). Mae gwasanaethau sy'n darparu cyngor i gleientiaid yn ddi-dâl fel Cyngor ar Bopeth yn gallu helpu cleientiaid mewn sefyllfaoedd o'r fath, ac mae rhai ohonynt yn rhedeg desgiau cynghori mewn llysoedd, ond mae'r gallu i gael y gwasanaethau hyn yn amrywio o le i le ac mae toriadau cyllid wedi effeithio ar y gallu i'w derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru, drwy gydweithio â'r Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol²¹ ac eraill, wedi datblygu Cynllun Gweithredu Gwybodaeth a Chyngor sy'n egluro sut mae am gydweithio i wella'r mynediad at wasanaethau cyngor a gwybodaeth sydd â sicrwydd ansawdd ym mhob agwedd ar gyfraith lles cymdeithasol. Un o flaenoriaethau'r Cynllun ar gyfer 2018/2019 yw mapio rhwydweithiau cyngor a chyfarwyddyd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ledled Cymru,²² ac mae'n bosibl y bydd canlyniad y gwaith hwn yn ddefnyddiol i awdurdodau lleol a darparwyr tai wrth helpu dinasyddion sydd mewn dyled.

Fodd bynnag, nid y gallu i gael cyngor cyfreithiol yw'r unig ystyriaeth i ddinasyddion mewn dyled. Mae cau llysoedd yn ychwanegu at y problemau hyn gan ei bod yn bosibl y bydd pobl yn gorfod teithio cryn bellter i gyrraedd eu llys sirol neu lys ynadon agosaf. Yn achos y rheini sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus, gall fod yn amhosibl cyrraedd y llys erbyn yr amser gofynnol; a hyd yn oed os byddant yn cyrraedd, mae'n bosibl na fydd eu hachos yn cael ei wrando (Bowcott, 2018; Maguire, 2018).

Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth am brofiad y dinesydd yn brin iawn o hyd. Mae ymchwil i achosion meddiant tai yn dangos:

- Ei bod yn bosibl na fydd gwybodaeth am amgylchiadau'r diffynnydd a all effeithio ar benderfyniad y barnwr yn hysbys i'r barnwr;
- Bod y cyfraddau ar gyfer cyfranogi gan ddiffynyddion mewn gwrandawiadau'n isel, a gall hyn olygu bod barnwyr yn llai gwybodus am fanylion sefyllfa'r diffynnyddion;
- Mai ychydig o ddiffynyddion sy'n cael unrhyw gyngor cyfreithiol cyn gwrandawiadau. (Bright a Whitehouse, 2014).

Camau gorfodi i gasglu dyledion treth gyngor

Yn ôl sefydliadau cynghori ar ddyled, ar sail eu profiad o weithio gydag awdurdodau lleol ledled y DU, mae cyflymder y camau a gymerir gan awdurdodau lleol mewn ymateb i ddyledion treth gyngor (lle mae colli un taliad yn gallu arwain weithiau at hawlio'r swm cyfan neu gamau pellach) yn golygu bod cynghorwyr dyled yn gallu ei chael yn anodd atal y camau gorfodi rhag dwysáu. Gall hyn waethygu o ganlyniad i broblemau wrth gyfathrebu ag adrannau treth gyngor ac amrywiadau o fewn a rhwng adrannau ynghylch y camau a'r negodi sydd ar gael (CAP, 2018).

Mae protocol newydd ar ddyled a ddaeth i rym yn Hydref 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl bartïon ymgysylltu'n gynnar, cyfnewid gwybodaeth a cheisio datrys y mater heb droi at

²¹ Sefydlodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol yn 2015.

²² <https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/comm/180914-second-annual-review-cy.pdf>.

achos llys (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2017a). Nid yw hyn yn digwydd yn achos dyledion treth gyngor, fodd bynnag, lle dadleuir bod llai o gamau atal ac amddiffyn ar gyfer pobl mewn dyled ac nad oes diffiniad clir o fforddiadwyedd pan ystyrir dedfryd o garchar (Sefydliad Cynghorwyr Arian a PayPlan, 2017). Ar sail ei dadansoddiad o ddata, mae'r un astudiaeth yn dadlau bod achosion i anfon dyledwyr treth gyngor i'r carchar wedi dod yn llai effeithiol o ran sicrhau tâl wrth gyrraedd cam y gorchymyn llys.

Yn ogystal â hyn, mae sefydliadau cynghori ar ddyled am weld awdurdodau lleol yn ymrwymo'n glir yn gyhoeddus i leihau'r defnydd o feiliaid dros amser, yn cynnwys ar gyfer dyledion treth gyngor. Ymysg pethau eraill, cafwyd bod y defnydd o feiliaid yn achosi straen i ddinasyddion a'i fod yn rhan o 'lwybr achosol' sy'n arwain o drafferthion ariannol at broblemau iechyd meddwl. Yn 2016-17, roedd awdurdodau lleol yng Nghymru wedi atgyfeirio 74,658 o achosion i feiliaid (3% o gyfanswm y DU), ac mae'n ymddangos bod eu defnydd o feiliaid yn lleihau. Ar draws yr holl awdurdodau lleol, fodd bynnag, roedd y defnydd o feiliaid mewn achosion treth gyngor wedi cynyddu 10% rhwng 2015-16 a 2016-17. Un arfer dda yn Lloegr yw osgoi defnyddio beiliaid yn achos pobl sy'n cael cymorth treth gyngor (Money Advice Trust, 2017).

Mae gwybodaeth a gafwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn awgrymu y bydd nifer mawr o achosion lle y bydd talwyr y dreth gyngor yn cael cymorth o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ond lle y bydd gwahaniaeth o hyd rhwng swm y cymorth a'r dreth gyngor sy'n daladwy. Gall pob awdurdod lleol benderfynu ar ei ddull gweithredu ei hun ond, os bydd camau adennill dyled yn dechrau, gall hyn gynnwys camau gorfodi. Bydd y dull o orfodi yn dibynnu ar nifer o ffactorau fel ymgysylltu â'r trethdalwr, y cymorth ychwanegol sydd ar gael a'r tebygolrwydd o dalu. Er enghraifft, gall yr awdurdod wneud cais am atafaelu symiau'n uniongyrchol o fudd-daliadau. Fodd bynnag, ni fyddai atafaelu o'r fath ond yn ddichonol mewn achos ar enillion ar ôl rhoi gorchymyn dyled, a byddai hyn yn arwain at gostau ychwanegol i'r awdurdod (Greenall a Prosser, 2017). Byddai system ymgysylltu effeithiol yn golygu bod modd gwell a chyflymach ar gael i adnabod pobl sy'n agored i niwed, a byddai hyn yn effeithio ar y ffordd o reoli achosion penodol. Yn anffodus, bydd ymgysylltu o'r fath yn digwydd ar ddiwedd y broses fel arfer.

Carcharu am ddyledion treth gyngor

Fel y nodwyd eisoes, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i sicrhau, o 1 Ebrill 2019, na fydd yn bosibl cychwyn achos wedyn i anfon unigolyn i'r carchar am ddyled treth gyngor. Mae ffigurau ar gyfer 2016/17 yn dangos mai dim ond pedwar cyngor yng Nghymru (Bro Morgannwg, Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful) a oedd wedi gwneud cais llwyddiannus am garcharu pobl am ddyledion treth gyngor (Sefydliad Cynghorwyr Arian a PayPlan 2017). O'r 326 o wysion am garcharu a godwyd gan gynghorau yng Nghymru yn yr un flwyddyn, anfonwyd 95 ohonynt gan un awdurdod (Greenall a Prosser, 2017). Codwyd amheuaeth ynghylch cyfreithlondeb carcharu am ddyledion treth

gyngor (Sakande, 2018) a hefyd ynghylch ei effeithiolrwydd. Yn wir, yn ôl ffigurau am 2016/17 ar gyfer Cymru a Lloegr, dim ond 17 o'r 99 a ymatebodd ac a oedd wedi cychwyn camau i garcharu a oedd wedi sicrhau dedfryd o garchar – ac roedd 166 o gynghorau heb gychwyn y broses o gwbl (Sefydliad Cynghorwyr Arian a PayPlan 2017).

Mae tystiolaeth bod dedfrydau byr o garchar (fel y rheini am ddyled treth gyngor) yn cael effaith negyddol sylweddol ar famau a'u plant, a'u bod yn wynebu heriau parhaus ar ôl eu rhyddhau o'r carchar, yn cynnwys diffyg cymorth a chefnogaeth, trafferthion yn eu perthynas â'u plant, euogrwydd a gofid am eu carcharu (Baldwin ac Epstein, 2017). Mae'r awduron yn dod i'r casgliad mai dim ond fel modd i orfodi rhywun i dalu dyled treth gyngor (lle mae ganddo arian ond ei fod yn amharod i dalu) y dylid defnyddio dedfryd o garchar ac nid fel cosb am beidio â thalu (a bod heb arian i dalu).

Troi allan oherwydd ôl-ddyledion rhent

Er mwyn hybu mwy o gyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth rhwng landlordiaid a thenantiaid, cyn cychwyn achos, er mwyn osgoi ymglyfreitha os oes modd, mae protocol penodol ar gael am gamau i'w cymryd cyn hawlio meddiant gan landlordiaid cymdeithasol (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2017b). Er bod arferion da ar waith ymysg darparwyr tai yng Nghymru, mae tystiolaeth sy'n dangos nad ydynt yn dilyn y protocol bob amser, ac mae hynny wedi arwain at alwadau am wneud *gofyniad* i gymryd camau cyn cychwyn achos, fel a geir yn yr Alban (Shelter Cymru, 2016).

Mae hyn hefyd yn amlygu'r perygl mwy cyffredinol o gael bylchau rhwng polisi ac ymarfer, lle mae landlordiaid (ac awdurdodau lleol) wedi mabwysiadu polisiâu a gweithdrefnau da a all ragori hyd yn oed ar y safonau gofynnol, ond bod staff rheng flaen yn eu hanwybyddu neu'n peidio â'u dilyn yn briodol a hynny, o bosibl, yn dangos angen am hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus. Problemau eraill a nodwyd yw cyfathrebu mewnol ac allanol gwael ynghylch troi allan ac anghysondeb wrth atgyfeirio i wasanaethau digartrefedd (Shelter Cymru, 2016).

Ar nodyn mwy cadarnhaol, dywedir bod paneli aml-asiantaeth i adolygu achosion cyn troi allan yn dod yn fwy cyffredin ac mae tystiolaeth o'u heffeithiolrwydd yn dod i'r golwg. Er enghraifft, mae Tai Gogledd Cymru wedi cyflwyno paneli aml-asiantaeth cyn troi allan, yn enwedig lle mae plant yn gysylltiedig, neu lle mae'r tenant yn agored i niwed o ryw fath. Gall cyfranogwyr y paneli gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, swyddogion cyswllt ysgolion, swyddogion tai, gweithwyr cymorth tenantiaeth a swyddogion cyfreithiol rhenti. Mae'r paneli wedi cael rhywfaint o lwyddiant wrth osgoi troi allan, er enghraifft, drwy ddod o hyd i grantiau i helpu tenantiaid i glirio eu hól-ddyledion rhent a darparu cymorth i ddatrys problemau hirsefydlog mewn perthynas â budd-dal tai (HQN Ltd., 2018).

Mae'r un astudiaeth yn argymhell bod darparwyr tai yn cael eu cynrychioli ar fforymau defnyddwyr llys, gan fod hyn yn cynnig cyfle da i gynnal a gwella cysylltiadau, deall a dylanwadu ar weithdrefnau llys a dod ag unrhyw bryderon i sylw barnwyr.

Bylchau a gwendidau mewn dystiolaeth

Mae swm eithaf mawr o dystiolaeth am broblemau sy'n gysylltiedig â champau gorfodi i adennill dyled treth gyngor ac ôl-ddyledion rhent, ond mae'r darlun o ran cymorth i bobl sydd mewn dyled yn llai cadarnhaol. Mae'r opsiynau sydd ar gael i ddinasyddion ar gyfer derbyn cymorth arbenigol wedi lleihau o ganlyniad i doriadau ar gymorth cyfreithiol ac mae'n ymddangos bod amheuan ynghylch effeithiolrwydd protocolau sydd i fod i sicrhau bod pobl mewn dyled yn cael eu trin yn deg. Oherwydd hyn, mae dinasyddion Cymru yn wynebu 'loteri cod post' i ryw raddau o ran y cymorth sydd ar gael – ond byddai rhagor o dystiolaeth yn helpu i gadarnhau'r darlun hwn a chynnig rhagor o syniadau o bosibl i sicrhau bod pobl yn cael mynediad at gyfiawnder.

Helpu dyledwyr agored i niwed i gadw rheolaeth ar eu rhwymedigaethau ar ôl cymryd camau gorfodi

Nid ydym wedi canfod unrhyw dystiolaeth am ffyrdd effeithiol i helpu dyledwyr agored i niwed wedi iddynt wynebu camau gorfodi i adennill dyledion. Ar ei fwyaf difrifol, mae'n bosibl bod y diffyg hwn wedi arwain at droi tenantiaid allan neu at garcharu neu fygythiad i garcharu. Yn 2015 roedd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol wedi mynegi pryderon am y diffyg gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd i deuluoedd wedi iddynt gael eu troi allan (Shelter Cymru, 2016; Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015), ac nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod y bwlch hwnnw wedi'i gau. Yn yr un modd, er bod nifer yr achosion yn fach, ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am yr hyn sy'n digwydd i bobl ar ôl dedfrydau byr o garchar am ddyledion treth gyngor, gan gofio nad yw'r carcharu'n clirio'r ddyled.

Gallm gymryd bod y dystiolaeth am gynorthwyo pobl ar gamau cynharach yn y cylch bywyd yn berthnasol hefyd i'r rheini sy'n profi effaith camau gorfodi – drwy ganolbwyntio, er enghraifft, ar gymorth rhagweithiol wedi'i bersonoli sy'n ymddangos yn fwy effeithiol na dulliau sy'n cael eu cymhwyso at bawb yn yr un modd. Er hynny, byddai'n fuddiol cael deall mwy, a gwybod a yw proffil y bobl sy'n mynd drwy gamau gorfodi yn golygu y dylid ystyried strategaethau a dulliau gweithredu gwahanol. Yn un peth, mae'n debygol na fydd ganddynt ddim neu nemor ddim ymddiriedaeth mewn cyrff cyhoeddus; ac mae'n bosibl y bydd eu profiadau wedi'u gwneud yn fwy agored i unrhyw niwed neu wedi'u gwneud yn agored i fathau newydd o niwed.

Rhan 3: Casgliadau a chamau i'w hystyried

Rydym yn crynhoi'r canfyddiadau o'r adolygiad o dystiolaeth o dan dri phennawd: cadernid y sylfaen dystiolaeth; dulliau gweithredu effeithiol; a chamau i'w hystyried.

Cadernid y sylfaen dystiolaeth

Rydym wedi adolygu mwy na 60 o eitemau o dystiolaeth a oedd yn darparu data ynghylch adnabod, ymgysylltu a chynorthwyo sy'n berthnasol i bobl sydd mewn dyled i awdurdodau lleol neu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Roeddem wedi canfod swm eithaf mawr o dystiolaeth ar hyd cylch bywyd dyledion. Yr unig eithriad oedd tystiolaeth am helpu pobl i gadw rheolaeth ar eu rhwymedigaethau ar ôl cymryd camau gorfodi, lle nad oedd bron dim gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd i bobl neu ffyrdd effeithiol i'w helpu. Bylchau amlwg eraill oedd:

- Tystiolaeth sy'n ymwneud yn benodol â phobl mewn sefyllfaoedd sy'n eu gwneud yn agored i niwed;
- Tystiolaeth am brofiad y dinesydd o ymyriadau neu unrhyw dystiolaeth am eu rhan mewn cynllunio ymyriadau;
- Tystiolaeth o effeithiau posibl o gasglu dyledion sy'n seiliedig ar rywedd.

Mae ein hadolygiad yn dangos nad oes diffyg canllawiau, protocolau, offer nac astudiaethau achos o arferion da ar gyfer awdurdodau lleol a darparwyr tai; yn cynnwys enghreifftiau lle mae offer a chanllawiau safonol wedi'u haddasu ar gyfer awdurdodau lleol. Fodd bynnag, nid yw'n glir i ba raddau y mae'r rhain yn cael eu defnyddio yng Nghymru, nac a ydynt yn cael eu gweithredu'n briodol ar draws sefydliadau. Mae hyn yn creu'r perygl o fylchau rhwng polisi ac ymarfer a loteri cod post o ran triniaeth deg i bobl sydd mewn dyled yng Nghymru.

Dulliau gweithredu effeithiol

Neges gyson sy'n codi o'r adolygiad o dystiolaeth yw bod cymorth rhagweithiol wedi'i bersonoli, a ddarperir drwy bartneriaethau aml-asiantaeth effeithiol – sy'n rhoi gwell dealltwriaeth o anghenion dinasyddion penodol – yn gweithio'n well na dull gweithredu cyffredinol sy'n cael ei gymhwyso at bawb. Nodweddion allweddol eraill mewn cymorth effeithiol yw:

- **Meithrin ymddiriedaeth** mewn dinasyddion o'r adeg y maent yn dod yn gyfrifol am dalu rhent neu'r dreth gyngor; neu, lle nad yw hyn yn bosibl, gweithio gyda sefydliadau dibynadwy;
- **Camau cynnar i adnabod** problemau posibl ac ymyrraeth gynnar;

- **Llwybrau atgyfeirio** rhwydd rhwng partneriaid a buddsoddi parhaus i sicrhau bod y bartneriaeth yn gweithio i bartneriaid a dinasyddion;
- Y gallu i gael **cymorth arbenigol, annibynnol** mewn amgylchedd cyfrinachol;
- **Rhannu data yn well.** Mae Deddf yr Economi Ddigidol 2017 a'r Rheoliad Cyffredinol newydd ar Ddiogelu Data yn cynnig cyfle i ailystyried y posibilrwydd o rannu data gan gynghorau a chymdeithasau tai, yn fewnol a chydag asiantaethau neu sefydliadau priodol eraill; gall hyn fod o gymorth i adnabod y rheini sy'n agored i niwed a all fod yn gymwys i dderbyn cymorth. Clywsom yn ein digwyddiad Bord Gron ym mis Tachwedd 2018 am **waith treialu** yn Lloegr a oedd yn golygu **rhannu data rhwng Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac awdurdodau lleol** – roedd ymchwil flaenorol wedi argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried y dichonoldeb o hwyluso mynediad gan awdurdodau lleol at ddata cyflogaeth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi er mwyn gallu atafaelu symiau o enillion yn ddi-oed lle'r oedd hynny'n briodol (Greenall a Prosser, 2017).
- Roedd ein digwyddiad Bord Gron hefyd wedi tynnu sylw at **arferion da a geir ar hyn o bryd** ymysg cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd y mynychwyr hefyd yn gweld cyfleoedd ar gyfer **mwyr o gydweithio**, yn cynnwys hyfforddi staff rheng flaen i sicrhau bod dinasyddion mewn dyled ledled Cymru yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Er eu bod yn debygol o alw am rywfaint o fuddsoddi, mae gwasanaethau y dangoswyd eu bod yn gweithio mewn lle gwell i sicrhau gwerth am arian na gwasanaethau llai drud nad ydynt yn gweithio. Fodd bynnag, prin iawn yw'r wybodaeth a gyhoeddwyd am gostau a buddion er mwyn gallu asesu gwerth am arian.

Camau i'w hystyried

Ar sail y dystiolaeth a adolygwyd, rydym yn awgrymu rhai camau i'w hystyried a allai hybu rhaglen newid os ceir ymrwymiad ac adnoddau priodol.

- Asesu i ba raddau y mae unrhyw argymhellion o ymchwil ddiweddar sy'n ymwneud yn benodol â Chymru wedi cael eu rhoi ar waith. Er enghraifft, cafwyd 15 o argymhellion mewn ymchwil am gasglu dyledion treth gyngor gan awdurdodau lleol (Greenall a Prosser, 2017), a 39 o argymhellion yn ymwneud â thai cymdeithasol yng Nghymru (HQN Ltd., 2018). Os ydynt wedi cael eu rhoi ar waith (neu os ydynt yn yr arfaeth), a oes unrhyw waith monitro neu asesu buddiol y gellid ei gyflawni a'i rannu? Os nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith, pam hynny, ac a oes unrhyw awydd i ddelio â'r rhwystrau rhag eu gweithredu?
- Chwilio am ffyrdd effeithiol i gasglu tystiolaeth o werthuso am ymyriadau sy'n gweithio a rhai nad ydynt, er enghraifft, drwy ddod ag eitemau gwybodaeth allweddol at ei

gilydd o asesiadau sydd heb eu cyhoeddi a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai;

- Ystyried y gwerth sydd mewn llenwi bylchau mewn gwybodaeth a nodwyd yn yr adolygiad hwn, ar sail gwerthusiad cytbwys ynghylch a yw data newydd yn debygol o gael eu defnyddio wrth ddatblygu gwasanaethau neu gynllunio strategaeth. Nid oes diben mewn casglu data newydd heb fod pwrpas clir i hynny.

Cyfeiriadau

Awdurdod Ymddygiad Ariannol (2016). Thematic review. **Early arrears management in unsecured lending TR16/10**. Adalwyd o: <https://www.fca.org.uk/publication/thematic-reviews/tr16-10.pdf>

Baldwin, L. ac Epstein, R. (2017). **Short but not sweet: A study of the impact of short custodial sentences on mothers & their children**. Leicester: De Montfort University.

Adalwyd o:

<https://www.dora.dmu.ac.uk/bitstream/handle/2086/14301/Final%203Research%20Report%20LB%20RE%202017%20.pdf?sequence=3&isAllowed=y>

Beatty, C., Cole, I., Kemp, p., Marshall, B., Powell, S. a Wilson, I. (2012). **Monitoring the impact of changes to the Local Housing Allowance system of housing benefit: Summary of early findings**. Department for Work and Pensions. Adalwyd o:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/193477/rrep798.pdf

Bennett, F. a Daly, M. (2014). **Poverty through a gender lens. Evidence and policy review on gender and poverty**. Oxford: University of Oxford. Adalwyd o:

https://www.spi.ox.ac.uk/sites/default/files/Gender_and_poverty_Bennett_and_Daly_final_12_5_14_28_5_14.pdf

Bennett, L., Cameron, C., Colechin, J., McCallum, A., Murphy, H., Patel, A. a Wilson, T. (2016). **Evaluation of the Universal Support delivered locally trials. Final report**.

London: DWP/GSR. Adalwyd o:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/537089/ad-hoc-report-33-evaluation-of-the-universal-support-delivered-locally-trials.pdf

Bond, N., Braverman, R. a Clarke, T. (2018). **Recovery space: Minimising the financial harm caused by mental health crisis**. Money and Mental Health Policy Institute. Adalwyd o:

<https://www.moneyandmentalhealth.org/wp-content/uploads/2018/02/Money-and-Mental-Health-Recovery-Space-Report.pdf>

Bowcott, O. (2018). **Court closures: sale of 126 premises raised just £34m, figures show**. The Guardian, 8 Mawrth 2018 [ar-lein]. Adalwyd o:

<https://www.theguardian.com/law/2018/mar/08/court-closures-people-facing-days-travel-to-attend-hearings>

Bright, S., Whitehouse, L. (2014). **Information, Advice & Representation in Housing Possession Cases**. Adalwyd o: https://www.law.ox.ac.uk/sites/files/oxlaw/housing_possession_report_april2014.pdf

Britain Thinks (2018). **Learning from Experiences of Universal Credit**. Joseph Rowntree Foundation and BritainThinks. Adalwyd o: http://britainthinks.com/pdfs/Learning-from-experiences-of-Universal-Credit_Report-for-the-Joseph-Rowntree-Foundation.pdf

CAP (2017). **Client report. Partnership; the key to transforming lives**. Bradford: Christians Against Poverty. Adalwyd o: <http://www.credit-connect.co.uk/wp-content/uploads/2017/06/Partnership-the-key-to-transforming-lives.pdf>

CAP (2018). **Powerless people: indebted and afraid. The experience of debt collection by local and central government**. Bradford: Christians Against Poverty. Adalwyd o: <https://capuk.org/connect/policy-and-government/powerlesspeople>

Chivers, B. a Barnes, G. (2018). Sorry, wrong number: tracking court attendance targeting through testing a nudge text. **Cambridge Journal of Evidence Based Policing** 2:4–34. Adalwyd o: <https://link.springer.com/article/10.1007/s41887-018-0023-5>

Citizens Advice Scotland (2017). **Living from one pay day to the next: A look at how people in Scotland feel about finances, credit and debt**. Adalwyd o: https://www.cas.org.uk/system/files/publications/living_one_pay_day_to_the_next_report_0.pdf

Cyngor ar Bopeth (2016). **Fairness for all: Improving council tax debt collection in Wales**. Adalwyd o: <https://www.citizensadvice.org.uk/Global/CitizensAdvice/Wales/Fairness%20for%20all%20-%20September%202016%20-%20Google%20Docs.pdf>

Cyngor ar Bopeth (2018). **Hidden Debts: The growing problem of being behind on bills and in debt to the government**. Adalwyd o: <https://www.citizensadvice.org.uk/Global/CitizensAdvice/Debt%20and%20Money%20Publications/Hidden%20Debts%20report.pdf>

Cyngor ar Bopeth a Chymdeithas Llywodraeth Leol (2017). **Council Tax protocol. Revised collection of council tax arrears good practice protocol**. Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2009, diweddarwyd yn 2013 a 2017. Adalwyd o: <https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/how-citizens-advice-works/media/press-releases/citizens-advice-and-lga-launch-council-tax-collection-protocol/>. Adalwyd diweddariad 2017 o: <https://www.citizensadvice.org.uk/Global/CitizensAdvice/campaigns/Council%20Tax/Citizens%20Advice%20Council%20Tax%20Protocol%202017.pdf>

Collard, S., Evans, J. a Fitch, C. (2018). **Sharing is caring? Could data-sharing improve the support provided to customers in vulnerable situations?** University of Bristol, Personal Finance Research Centre. Adalwyd o: http://www.bristol.ac.uk/media-library/sites/geography/pfrc/pfrc1805_sharing-is-caring-report.pdf

Comisiwn Low (2015). **Annex 15 Advice and housing associations.** Adalwyd o: <https://www.lowcommission.org.uk/Documents/Report-Annexes>

Cymdeithas y Cyfreithwyr (2017). **Access denied? LASPO four years on: a Law Society review.** Adalwyd o: <https://www.lawsociety.org.uk/News/documents/laspo-4-years-on-review/>

Cymdeithas y Cyfreithwyr (2018a). **End legal aid deserts** [online]. Adalwyd o <http://www.lawsociety.org.uk/policy-campaigns/campaigns/access-to-justice/end-legal-aid-deserts/>

Cymdeithas y Cyfreithwyr (2018b). **LASPO review** [online]. Adalwyd o: <http://www.lawsociety.org.uk/policy-campaigns/campaigns/access-to-justice/laspo-review/>

Cymdeithas y Plant (2014). **The debt trap: Exposing the impact of problem debt on children.** Adalwyd o: https://www.childrenssociety.org.uk/sites/default/files/debt_trap_report_may_2014.pdf

Cymdeithas y Plant (2015). **The Wolf at the Door: How council tax debt collection is harming children.** Adalwyd o: https://www.childrenssociety.org.uk/sites/default/files/wolf-at-the-door_council-tax-debt-collection-is-harming-children_PCR027a_WolfAtTheDoor_Web.pdf

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015). **Responding to Welfare Reform in Wales.** Report of the Public Accounts Committee. Adalwyd o: <http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld10320/cr-ld10320-e.pdf>

DCLG (2006). **Guide on Effective Rent Arrears Management.** London; Department for Communities and Local Government. Adalwyd o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/7834/151801.pdf

DECC (2016). **Warm Home Discount Scheme.** London: Department of Energy & Climate Change. Adalwyd o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/514324/Final_Warm_Home_Discount_consultation_for_publication.pdf

DWP (2014a). **Direct Payment Demonstration Projects: Rent underpayment.** Department for Work and Pensions Research Report No 877. Adalwyd o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/333073/dpdp-rent-underpayment.pdf

DWP (2014b). **Local Authority Led Pilots. Preparing for Universal Credit Implementation – Key Questions and Answers for Local Authorities.** Adalwyd o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/295504/la-led-pilots-preparing-for-universal-credit.pdf

DWP (2018). **Use of Discretionary Housing Payments – Analysis of end of year returns from Local Authorities Data for April 2017 – March 2018.** Adalwyd o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/724614/use-of-discretionary-housing-payments-2017-to-2018.pdf

Ffederasiwn Tai Cenedlaethol (2015). **Welfare Reform Impact Assessment.** Adalwyd o: http://s3-eu-west-1.amazonaws.com/pub.housing.org.uk/WR_impact_final_report.pdf

Finn, D. a Goodship, J. (2014). **Take-up of benefits and poverty: an evidence and policy review.** Centre for Economic and Social Inclusion. Adalwyd o: <https://www.learningandwork.org.uk/wp-content/uploads/2017/01/Benefit-Take-Up-Final-Report-Inclusion-proofed-June-2014-pdf.pdf>

Finney, A. a Davies, S. (2011). **Facing the squeeze 2011: A qualitative study of household finances and access to credit.** Adalwyd o: <https://research-information.bristol.ac.uk/files/14684977/pfrc1110.pdf>

Fitch, C., Evans, J., a Trend, C. (2017). **Vulnerability: a guide for debt collection. 21 questions, 21 steps.** University of Bristol, Personal Finance Research Centre. Adalwyd o: [http://www.bris.ac.uk/media-library/sites/geography/pfrc/pfrc1701-21-steps-vulnerability-and-debt-collection-\(web\).pdf](http://www.bris.ac.uk/media-library/sites/geography/pfrc/pfrc1701-21-steps-vulnerability-and-debt-collection-(web).pdf)

Gibbons, D. (2018). **Evaluation of the ‘Supported Rent Flexibility’ pilot.** London: Centre for Responsible Credit. Adalwyd o: https://www.fincap.org.uk/document/Wyp_bB8AAPk52DMI/evaluation-of-the-supported-rent-flexibility-pilot

Greenall, C., a Prosser, N. (2017). **Local authorities’ approaches to council tax debt recovery in Wales.** Cardiff: Welsh Government, GSR report number 57/2017. Adalwyd o: <http://gov.wales/statistics-and-research/local-authorities-approaches-council-tax-debt-recovery/?lang=en>

Gweithrediaeth yr Alban (1999). **Council Tax collection arrangement in Scotland and England and Wales.** Scottish Executive Central Research Unit. Adalwyd o: <https://www.gov.scot/resource/doc/156451/0041994.pdf>

Hartfree, Y. a Collard, S. (2014). **Poverty, debt and credit: An expert-led review: Final report to the Joseph Rowntree Foundation.** Adalwyd o: <https://www.bristol.ac.uk/media-library/sites/geography/migrated/documents/pfrc1404.pdf>

Hartfree Y. a Collard S. (2015). **Locating credit and debt within an anti-poverty strategy for the UK,** Journal of Poverty and Social Justice, Volume 23, Number 3. Adalwyd o: [https://research-information.bristol.ac.uk/en/publications/locating-credit-and-debt-within-an-antipoverty-strategy-for-the-uk\(9dc0d10f-b10d-4e4a-82e9-0957a4226608\)/export.html](https://research-information.bristol.ac.uk/en/publications/locating-credit-and-debt-within-an-antipoverty-strategy-for-the-uk(9dc0d10f-b10d-4e4a-82e9-0957a4226608)/export.html)

Herden, E., Power, A. a Proven, B. (2015). **Is Welfare Reform Working? Impacts on working age tenants: a study for SW HAILO.** Adalwyd o: <http://eprints.lse.ac.uk/63384/>

Hickman, P., Kemp, P., Reeve, K. a Wilson, J. (2017). **The impact of the direct payment of housing benefit: evidence from Great Britain.** Journal of Housing Studies Vol 32, Issue 8. Adalwyd o: <https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/02673037.2017.1301401>

Hood, D., Joyce, R., a Sturrock, D. (2018). **Problem debt and low-income households.** Institute for Fiscal Studies. Adalwyd o: <https://www.ifs.org.uk/uploads/publications/comms/R138%20-%20Problem%20debt.pdf>

HQN Ltd. (2018). **Assessing affordability and barriers to social housing in Wales.** Community Housing Cymru. Adalwyd o: https://chcymru.org.uk/uploads/events_attachments/Assessing_affordability_and_barriers_to_accessing_social_housing_in_Wales.pdf

Ipsos Mori (2014). **The impact of welfare reform - Tenant case studies for National Housing Federation.** Adalwyd o: http://s3-eu-west-1.amazonaws.com/doc.housing.org.uk/Editorial/12-045846-01_NHF_Tenant_Case_Study_Report_FINAL2_24.10.14_INTERNAL_AND_CLIENT_US E_ONLY.pdf

Ipsos MORI (2017). **Analysis of the potential effects of early legal advice/intervention.** Ipsos MORI/The Law Society. Adalwyd o: <https://www.lawsociety.org.uk/support-services/research-trends/documents/impact-of-early-legal-advice/>

Johnson, S. ac O'Halloran, A. (2017). **Nudging your way to reduced rent arrears.** Capita Housing. Adalwyd o: <https://www.capitaproperty.co.uk/download/the-nudge-report/>

KPMG ac Oxford Economics (2010). **Evaluation of the Council Tax and Housing Benefit take-up scheme in Wales.** Welsh Assembly Social Research. Adalwyd o: <https://gov.wales/docs/dsjlg/research/101121benefiten.pdf>

Llywodraeth Cymru (2017a). **Digital Economy Act. Proposed list of data-sharing public bodies in Wales. Consultation document.** Adalwyd o: <https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-02/171208-consultation-document-en.pdf>

Llywodraeth Cymru (2017b). **Social Landlord Housing Stock and Rents as at 31 March 2017. SFR91/2017.** Adalwyd o: <https://gov.wales/docs/statistics/2017/170809-social-landlord-housing-stock-and-rents-31-march-2017-en.pdf>

Llywodraeth Cymru (2018a). **Council Tax Collection Rates in Wales: 2017-18, SFR47/2018.** Adalwyd o: <https://gov.wales/docs/statistics/2018/180613-council-tax-collection-rates-2017-18-en.pdf>

Llywodraeth Cymru (2018b). **Council Tax Dwellings in Wales, 2018-19, SFR2/2018.** Adalwyd o: <https://gov.wales/docs/statistics/2018/180118-council-tax-dwellings-2018-19-en.pdf>

Llywodraeth Cymru (2018c). **Council Tax Reduction Scheme: Annual Report 2017-18.** Adalwyd o: <https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/localgov/180725-annual-report-en.pdf>

Llywodraeth Cymru (2018d). **Dwelling stock estimates by local authority and tenure, 2016-17, SFR36/2018.** Adalwyd o: <https://gov.wales/docs/statistics/2018/180426-dwelling-stock-estimates-2016-17-en.pdf>

Llywodraeth Cymru (2018e). **Registered social landlords.** Diweddarwyd ddiwethaf 3 Gorffennaf 2018. Adalwyd 16 Gorffennaf 2018 o: <https://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/publications/registered-social-landlords-in-wales/?lang=en>

Llywodraeth Cymru (2018f). **Removal of the sanction of imprisonment for the non-payment of council tax.** Consultation Document WG35286. Adalwyd o: <https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-06/180611-removal-of-sanction-of-imprisonment-non-payment-council-tax.pdf>

Llywodraeth Cymru (2018g). **Social Housing Vacancies, Lettings and Rent Arrears, 2016-17 – Revised. SFR18/2018(R).** Adalwyd o:

<https://gov.wales/docs/statistics/2018/180711-social-housing-vacancies-lettings-rent-arrears-2016-17-revised-en.pdf>

Llywodraeth Cymru (2018h). **Social Landlord Housing Stock and Rents as at 31 March 2018, SFR51/2018**. Adalwyd o: <https://gov.wales/docs/statistics/2018/180808-social-landlord-housing-stock-and-rents-31-march-2018-en.pdf>

LSE (2014). **Facing Debt: Economic Resilience in Newham CASE Report 83**. Adalwyd o: <http://eprints.lse.ac.uk/58039/1/CASEREport83.pdf>

Maguire, P. (2018). Crumbling Britain: **The quiet decline of English courts**. The New Statesman, 29 Mehefin 2018 [ar-lein]. Adalwyd o: <https://www.newstatesman.com/politics/uk/2018/06/crumbling-britain-quiet-decline-english-courts>

Money Advice Trust (2017). **Stop the knock. Mapping local authority debt collection practices in England and Wales**. London: Money Advice Trust. Adalwyd o: <http://www.moneyadvice.org/researchpolicy/research/Documents/Money%20Advice%20Trust%20-%20Stop%20The%20Knock%202017%20report.pdf>

McGinn, L., Lowe, S., Heaven, M. a Griffiths, L. (2016). **Supporting People data linking feasibility study**. Welsh Government/Government Social Research. Adalwyd o: <https://gov.wales/statistics-and-research/supporting-people-data-linking-feasibility-study/?lang=en>

Ofgem (2017). **Vulnerable consumers in the retail energy market: 2017**. Adalwyd o: https://www.ofgem.gov.uk/system/files/docs/2017/10/consumer_vulnerability_report_web_003.pdf

Orton, M. (2006). **Struggling to pay council tax: A new perspective on the debate about local taxation**. Adalwyd o: <https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/migrated/files/1577-local-tax-benefits.pdf>

Orton, M. (2009) **Understanding the exercise of agency within structural inequality: the case of personal debt**. *Social Policy and Society*, **8** (4). Adalwyd o: <http://wrap.warwick.ac.uk/2568/>

Pawson, H., Sosenko, F., Cowan, D., Croft, J., Cole, M. a Hunter, C. (2010). **Rent arrears management practices in the housing association sector**. Tenant Services Authority. Adalwyd o: http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20120604175542/http://www.tenantservicesauthority.org/upload/pdf/Rent_arrears_management_practices.pdf

Power, A., Proven, B., Herden, E. a Serle, N. (2014). **The impact of welfare reform on social landlords and tenants**. Joseph Rowntree Foundation. Adalwyd o: <https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/migrated/files/Welfare-reform-impack-FULL.pdf>

Protheroe, A., Mudd, J. a Fury, M. (2017). **The experience of Universal Credit: A tenant perspective**. Cardiff Metropolitan University. Adalwyd o: https://chcymru.org.uk/uploads/general/The_Experience_of_Universal_Credit_03.17.pdf

Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU (2017). **Making better use of data: identifying customers in vulnerable situations**. A Report for water and energy companies. Adalwyd o: <http://www.ukrn.org.uk/wp-content/uploads/2017/10/Making-better-use-of-data-identifying-customers-in-vulnerable-situations.pdf>

Rooftop Social (2017). **Evaluation of the 'Hands Up' arrears management program**. Adalwyd o: https://www.bridgehousing.org.au/data/Hand_Up/Hand_Up_evaluation_Final_report_-_25_May_2017.pdf

Sakande, N. (2018). **Why we must end unlawful imprisonment for council tax non-payment** [online]. Adalwyd o: https://www.huffingtonpost.co.uk/entry/end-unlawful-imprisonment-for-council-tax-non-payment_uk_5ab8f6e8e4b004fe246998e5?guccounter=1

Sefydliad Cynghorwyr Arian a PayPlan (2017). **"I can't believe we still do that." The case for ending imprisonment for council tax debt in England and Wales**. Adalwyd o: https://www.i-m-a.org.uk/media/I-cant-believe-they-still-do-that_Council-Tax-Report-Nov-2017_2nd-Edition.pdf

Sefydliad Polisi Arian ac Iechyd Meddwl (2018). **'Breathing Space' campaign**. Adalwyd o: <https://www.moneyandmentalhealth.org/case-extending-breathing-space-people-mental-health-crisis/>

Sefydliad Resolution (2017). **Falling through the cracks. The widening gap between unemployment and benefit statistics**. Resolution Foundation Briefing. Adalwyd o: <https://www.resolutionfoundation.org/app/uploads/2018/01/Claimant-gap.pdf>

Sefydliad Resolution (2018). **The Living Standards Audit 2018**. Adalwyd o: <https://www.resolutionfoundation.org/app/uploads/2018/07/Living-Standards-Audit-2018-3.pdf>

Shelter Cymru (2016). **Accessing and sustaining social tenancies: Exploring barriers to homelessness prevention.** Shelter Cymru/Oak Foundation. Adalwyd o: <https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2015/02/Accessing-and-sustaining-social-tenancies-exploring-barriers-to-homelessness-prevention.pdf>

Shelter Cymru (2018). **Housing Benefit rule changes (last updated March 2018).** Adalwyd o: <https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2018/03/Benefit-changes-factsheet-2018.pdf>

StepChange (2014). **Cutting the social cost of problem debt.** Adalwyd o: <https://www.stepchange.org/policy-and-research/social-cost-of-debt.aspx>

StepChange (2015). **Wales in the Red.** Adalwyd o: <https://www.stepchange.org/Portals/0/documents/media/reports/Wales-in-Red-Report.pdf>

StepChange (2018). **Breaking the link. A closer look at vulnerable people in debt.** Adalwyd o: <https://www.stepchange.org/Portals/0/documents/Reports/breaking-the-link-debt-vulnerability-stepchange-debt-charity.pdf>

StepChange (2018a). **Personal debt in the UK: Jan-Dec 2017 Statistics Year Book.** Adalwyd o: https://www.stepchange.org/Portals/0/documents/Reports/stepchange_debt_charity_statistics_yearbook_2017.pdf

Thomas, R. a Dowdall, J. (dim dyddiad). **Customer behavioural insights or nudging.** Taff Housing Association. Adalwyd o: https://chcymru.org.uk/uploads/events_attachments/Housing_Associations_have_been_given_the_nudge.pdf

Trysorlys EM (2018). **Breathing space scheme: call for evidence response.** London: HM Treasury. Adalwyd o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/714860/Breathing_space_call_for_evidence_response_for_publication_TB.pdf

Turn2Us (2018). **A front-line guide to income maximisation.** IMA Conference Presentation. Adalwyd o: <https://www.i-m-a.org.uk/wp-content/uploads/A-frontline-guide-to-income-maximisation.pdf>

Tŷ'r Cyffredin (2018). **Household Finances: Income, saving and debt.** Report of Treasury Committee. Adalwyd o: <https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmtreasy/565/565.pdf>

Whitfield, G. (2013). **Poverty and problematic debt: What can social housing providers do?** Joseph Rowntree Foundation. Adalwyd o: <https://www.jrf.org.uk/report/poverty-and-problematic-debt-what-can-social-housing-providers-do>

Williams, J., Collard, S., Friedman, D., Davies, S., Hayes, D. a McKenna, K. (2017). **Improving Financial Confidence programme evaluation. Final Report to Big Lottery Fund.** London: Big Lottery Fund.

www.entitledto.co.uk (2017). **Over £20 billion remains unclaimed in means tested benefits.** Ar-lein: <https://www.entitledto.co.uk/blog/2017/september/14/over-20-billion-remains-unclaimed-in-means-tested-benefits/>

Wyman, P. (2018). **Independent Review of the Funding of Debt Advice in England, Wales, Scotland and Northern Ireland.** Adalwyd o: https://masassets.blob.core.windows.net/cms/files/000/000/900/original/Peter_Wyman_Review_of_Debt_Advice_Funding_2018.pdf

Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol (dim dyddiad). **What is the Standard Financial Statement?** [ar-lein]. Adalwyd o: <https://sfs.moneyadvice.service.org.uk/en/what-is-the-standard-financial-statement>

Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol (2013). **Indebted lives: the complexities of life in debt.** London: Money Advice Service. Adalwyd o: https://mascdn.azureedge.net/cms/cs-indebted-lives-the-complexities-of-life-in-debt_november-2013.pdf

Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol (2017a). **Working collaboratively with debt advice agencies. A strategic toolkit for creditors.** London: Money Advice Service. Adalwyd o: <http://malg.org.uk/wp-content/uploads/2017/07/MALG-Members-Meeting-July-2017-Money-Advice-Service-launch-of-creditor-toolkit.pdf>

Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol (2017b). **Over-indebtedness map of the UK.** Adalwyd o: <http://overindebtednessmap.org/>

Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol ac Europe Economics (2018a). **The economic impact of debt advice.** London: Money Advice Service. Adalwyd o: https://masassets.blob.core.windows.net/cms/files/000/000/899/original/Economic_Impact_of_Debt_Advice_-_Summary.pdfs

Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol ac Europe Economics (2018b). **The economic impact of debt advice on debt re-cycling.** London: Money Advice Service. Adalwyd o: https://masassets.blob.core.windows.net/cms/files/000/000/895/original/Economic_Impact_of_Debt_Advice_-_Debt_Recycling.pdf

Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (2017). **Prison: the facts. Bromley Briefings Summer 2017**. Adalwyd o: <http://www.prisonreformtrust.org.uk/portals/0/documents/bromley%20briefings/summer%202017%20factfile.pdf>

Yr Alban (1987). **Debtors (Scotland) Act 1987**. Adalwyd o: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1987/18/section/74>

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2018). **Rolling out Universal Credit**. HC 1123. London: National Audit Office. Adalwyd o: <https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2018/06/Rolling-out-Universal-Credit-Summary.pdf>

Y Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus (2010). **Economic Impact Case Study: Durham Welfare Rights Service**. Macmillan and NHS Institute for Innovation and Improvement. Adalwyd o: <https://www.macmillan.org.uk/documents/aboutus/commissioners/casestudydurhamlocalfinancialsupportandbenefitsadvice.service.pdf>

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018a). **Collection rates for Council Tax and non-domestic rates in England, 2017 to 2018**. Adalwyd o: <https://www.gov.uk/government/statistics/collection-rates-for-council-tax-and-non-domestic-rates-in-england-2017-to-2018>

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018b). **Problem debt, Great Britain, July 2010 to June 2016**. Adalwyd o: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/personalandhouseholdfinances/debt/adhocs/008224problemdebttgreatbritainjuly2010tojune2016>

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth yr Alban (2018) **Council Tax Collection Statistics. 2017-18**. Adalwyd o: <https://beta.gov.scot/news/council-tax-collection-statistics-2017-18/>

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2017a). **Pre-action protocol for debt claims** [online]. Adalwyd o: <http://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil/pdf/protocols/pre-action-protocol-for-debt-claims.pdf>

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2017b). **Pre-action protocol for possession claims by social landlords** [online]. Adalwyd o: <https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil/protocol/pre-action-protocol-for-possession-claims-by-social-landlords>

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018a). **Mortgage and Landlord Possession Statistics in England and Wales, January to March 2018 (Provisional) – Statistical Data**. Adalwyd o: <https://www.gov.uk/government/statistics/mortgage-and-landlord-possession-statistics-january-to-march-2018>

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018b). **Mortgage and Landlord Possession Statistics, in England and Wales – Supporting Document**. Adalwyd o:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/705620/mortgage-landlord-possession-statistics-jan-mar-2018-annex.pdf

Ffynonellau Data: StatsCymru

Amcangyfrifon o'r Stoc Anheddau:
<https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Dwelling-Stock-Estimates>

DWP Stat-Xplore: <https://stat-xplore.dwp.gov.uk/webapi/jsf/login.xhtml>

Ôl-ddyledion Rhent Tai Cymdeithasol:
<https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Social-Housing-Rent-Arrears>

Rhenti a Stociau Tai Cymdeithasol:
<https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Social-Housing-Stock-and-Rents>

Y Dreth Gyngor – Lefelau: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Local-Government/Finance/Council-Tax/Levels>

Y Dreth Gyngor – Anheddau: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Local-Government/Finance/Council-Tax/Dwellings>

Y Dreth Gyngor – Casglu: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Local-Government/Finance/Council-Tax/Collection>

Atodiad 1: Y prosesau gorfodi treth gyngor ac adfeddiannu tai cymdeithasol

Y broses gorfodi treth gyngor

Mae'r broses ar gyfer adennill dyled treth gyngor yn dechrau pan fydd awdurdod lleol yn gwneud cais i Lys Ynadon am Orchymyn Dyled. Mae data meincnodi (Greenall a Prosser, 2017) yn dangos bod 92,547 o orchmynion dyled wedi'u rhoi yn 2016-17, sy'n cyfateb i 7% o'r anheddau trethadwy. O'r opsiynau y gellir eu defnyddio wedyn ar ôl cael gorchymyn dyled:

- mewn 18,961 o achosion ceisiwyd atafaelu enillion, sef yr opsiwn a ffefrir gan awdurdodau lleol ar gyfer adennill dyled. Os bydd cyflogaeth y dyledwr yn dod i ben, gellir wedyn anfon asiant gorfodi;
- gwnaed 16,673 o geisiadau i DWP am wneud didyniadau. Os bydd yr unigolyn yn symud ymlaen i gyflogaeth wedyn, gellir atafaelu enillion;
- gwnaed 55,151 o atgyfeiriadau i asiantau gorfodi/casglwyr;
- gwnaed 178 o orchmynion arwystlo. Dim ond pan fo'r ddyled yn fwy na £1,000 a'r meddiannydd yn berchen ar yr eiddo/tir y gellir cymhwyso'r rhain;
- nifer bach o geisiadau am orchmynion methdal a gafwyd, a dim ond 4 a sicrhawyd. Dim ond pan fo'r ddyled yn fwy na £5,000 y gellir cymhwyso'r rhain.

Os na fydd awdurdodau'n llwyddo i orfodi'r ddyled, yna gallant wneud cais i'r Llys Ynadon am warant i anfon y dyledwr i'r carchar. Ar y cam hwn, cynhelir ymchwiliad modd i benderfynu a oes modd gan y dyledwr i dalu ac a yw'r methiant i dalu yn ganlyniad i "wilful refusal or culpable neglect" (Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992, Rhan VI, Rheoliad 47). Os bydd y llys yn cael mai hyn oedd achos y methiant i dalu, gall roi Gwarant Garcharu, neu bennu cyfnod o garchar a gohirio rhoi'r warant. Mae pŵer hefyd gan y llys i leihau neu ddileu'r ddyled. Erbyn hyn, bydd y ddyled wedi cynyddu i gynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r camau gorfodi aflwyddiannus yn ogystal â'r costau llys.

Yn 2016-17, cyhoeddwyd 326 o wysion carcharu ledled Cymru. Roedd y rhain wedi arwain at wneud 159 o orchmynion traddodi lle'r oedd y ddedfryd wedi'i hatal a 20 lle'r oedd y ddedfryd wedi'i gorfodi. O dan y rheoliadau presennol, gellir rhoi dedfryd o hyd at dri mis; nid yw hyn yn arwain at gofnod troseddol; ac nid yw'n clirio'r ddyled. Fodd bynnag, wedi i rywun gael ei garcharu, ni all yr awdurdod bilio gymryd mesurau gorfodi pellach. Lle mae'r llys yn

penderfynu atal traddodi i'r carchar, gall hyn fod am hyd at dair blynedd ar yr amod y cedwir at y telerau talu.

Y broses adfeddiannu tai cymdeithasol

Mae data a gafwyd gan y llysoedd ar gyfer yr ystadegau diweddaraf ar achosion meddiannu yng nghyswllt morgeisi a landlordiaid (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2018a) yn dangos ar gyfer 2016-17 fod 3,800 o hawliadau am feddiant wedi'u gwneud gan landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r ffigurau ar gyfer 3 mis cyntaf 2018 yn rhai dros dro, ond maent yn awgrymu bod gostyngiad bach (2.6%) wedi bod yn ystod 2017-18 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Ar ôl gwneud hawliad am feddiant, gelwir gwrandawriad o flaen barnwr yn y Llys Sirol. Mewn gwrandawriad o'r fath, gall y barnwr roi:

- Gorchymyn am roi meddiant llwyr o'r eiddo ar ddyddiad a benderfynir gan y barnwr. Rhoddwyd 1,402 o orchmynion meddiant llwyr yn 2016-17, ac roedd y ffigurau ar gyfer 2017-18 yn weddol debyg (1,411);
- Gorchymyn adennill meddiant ataliedig ar yr eiddo – fel arfer bydd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol i'r diffynnydd dalu'r rhandaliad rhent diweddaraf yn ogystal â rhai o'r ôl-ddyledion sydd wedi cronni, o fewn cyfnod penodol. Cyhyd â bod y diffynnydd yn cydymffurfio â thelerau'r ataliad, ni ellir gorfodi'r gorchymyn adfeddiannu. Yn 2016-17, rhoddwyd 1,824 o orchmynion adennill meddiant ataliedig. Mae'r ffigurau dros dro ar gyfer 2017-18 yn awgrymu bod gostyngiad o 4.2% yn y nifer a roddwyd (1,747); neu
- Dim gorchymyn adennill meddiant (574).

Mae gorchmynion adennill meddiant yn datgan y dylai'r diffynnydd adael yr eiddo a bod hawl gan yr hawlydd i feddiannu'r eiddo (ac weithiau bod rhaid talu costau). Os na wnaiff y diffynnydd ganiatáu adennill meddiant, gellir gofyn am warant wedyn i beri i'r diffynnydd gael ei droi allan gan feiliaid. Drwy gydol proses y llys, hyd yn oed lle mae gwarant ildio meddiant wedi'i rhoi, gall yr hawlydd a'r diffynnydd barhau i negodi trefniant sy'n dderbyniol i'r ddau barti i atal y troi allan. Gellir rhoi mwy nag un gorchymyn yn ystod achos penodol. Er enghraifft, mae'n bosibl, ar ôl rhoi gorchymyn adennill meddiant cychwynnol, y bydd parti yn gwneud cais i'r llys am amrywio neu ddiddymu'r gorchymyn: gallai hynny arwain wedyn at wneud gorchymyn arall.

Cyhoeddwyd 1,890 o warantau yn ystod 2016-17 ac mae ffigurau dros dro yn awgrymu bod y nifer a gyhoeddwyd wedi cynyddu 1.9% i 1,925 yn 2017-18. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, mae nifer yr achosion o adfeddiannu wedi gostwng o 820 yn 2016-17 i 768 yn 2017-18 (-6.3%)

Atodiad 2: Cynllun

Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Mae pryder mawr bod y rheini sy'n eu cael eu hunain mewn perygl o fynd i ôl-ddyled ymysg yr aelodau o gymdeithas sy'n fwyaf agored i niwed. Fodd bynnag, bydd nifer mawr o'r rhain yn gymwys i gael cymorth, disgowntiau neu esemptiadau, yn arbennig y 300,000 bron o deuluoedd yng Nghymru sy'n cael eu hamddiffyn rhag unrhyw gynnydd yn eu rhwymedigaethau treth gyngor o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CGDG); mae hyn yn cyfateb i 20.7% o'r teuluoedd trethadwy.²³ O'r rhain, mae 220,000 o deuluoedd nad ydynt yn talu'r dreth gyngor o gwbl (Llywodraeth Cymru, 2018c).

Cyfanswm gwerth y gostyngiadau a ddarparwyd drwy CGDG yng Nghymru ar gyfer 2017-18 oedd tua £254 miliwn – cynnydd o tua £0.9 miliwn (0.4%) ar y flwyddyn ariannol flaenorol. Ar sail data misol 'agored' am y llwyth achosion:

- roedd 116,823 o bensiynwyr yng Nghymru wedi cael gostyngiad drwy CGDG ym mis Mawrth 2018, o'i gymharu â 119,930 ym Mawrth 2017, gostyngiad o 3,107 (2.7%) yn y llwyth achosion pensiynwyr. Awgrymwyd ei bod yn bosibl bod y gostyngiad yn y llwyth achosion oedran pensiwn yn ganlyniad yn rhannol i newidiadau yn oedran pensiwn y wladwriaeth ar gyfer menywod. Hefyd, mae cohortau newydd o bensiynwyr yn dueddol i fod ag incwm uwch, yn fwy tebygol o fod yn berchen-feddianwyr ac yn llai tebygol o gymryd gostyngiadau yn y dreth gyngor;
- roedd 168,863 o bobl o oedran gweithio yng Nghymru wedi cael gostyngiad drwy CGDG ym mis Mawrth 2018, o'i gymharu â 172,098 ym Mawrth 2017, gostyngiad o 3,235 (1.9%) o achosion. Mae Llywodraeth Cymru (2018c) wedi awgrymu ei bod yn bosibl bod y gostyngiad parhaus yn ganlyniad i'r ffaith bod pobl yn gadael y system budd-daliadau yn llwyr oherwydd gwelliant yn y sefyllfa economaidd gyffredinol a/neu effeithiau cronol y diwygiadau lles;
- Ym Mawrth 2018, roedd 67.4% o'r teuluoedd a oedd yn cael gostyngiad drwy CGDG yn achosion a oedd wedi'u hasesu'n awtomatig h.y. maent yn derbyn Cymhorthdal Incwm,

²³ Pan wnaed y penderfyniad gan Lywodraeth y DU yn Ebrill 2013 i ddiddymu Budd-dal y Dreth Gyngor a thorri 10% oddi ar y cynllun a oedd i gymryd ei le, trosglwyddwyd cyllideb sefydlog o £222 miliwn i Gymru ar gyfer gweinyddu'r cynllun newydd. Trefnwyd i £22 miliwn yn rhagor fod ar gael i Lywodraeth Cymru i alluogi awdurdodau lleol i weithio i ddiogelu teuluoedd agored i niwed ac isel eu hincwm a chynnal yr hawliau llawn o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae'r trefniadau cyllido hyn ar waith er 2013-14. Rhoddwyd meysydd penodol i awdurdodau lleol lle gallent arfer disgrisiwn yn lleol, fel y gallai pob un roi ystyriaeth i anghenion a blaenoriaethau ei ardal leol.

Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm neu Warrant Credyd Pensiwn, a 32.6% heb gael eu hasesu'n awtomatig;

- Achosion Lwfans Cyflogaeth a Chymorth oedd y math mwyaf cyffredin o achosion a oedd wedi'u hasesu'n awtomatig ar gyfer gostyngiad yn y dreth gyngor (26.8%). Wedyn roedd achosion Gwarant Credyd Pensiwn (Credyd Gwarantedig), sef tua 26.4%;
- Roedd 3.4% o'r teuluoedd a oedd yn cael gostyngiad o dan CGDG yn derbyn Credyd Cynhwysol. Achosion a oedd heb eu hasesu'n awtomatig oedd y rhain gan mwyaf;
- Y math mwyaf cyffredin o deulu yw aelwyd lle mae un oedolyn heb ddibynyddion (57.0%). Mae 18.9% o'r achosion yn ymwneud â theuluoedd un rhiant, un ym mhob chwech (15.4%) â chyplau heb ddibynyddion ac roedd un ym mhob deuddeg (8.6%) o deuluoedd yn gyplau â phlant dibynnol;
- Roedd 84.3% o'r teuluoedd a oedd yn cael gostyngiad o dan CGDG yn byw mewn eiddo ym Mandiau A i C ym Mawrth 2018, o'i gymharu ag 84.5% ym Mawrth 2017.

Atodiad 3: Esemptiadau rhag y dreth gyngor

Yn ogystal â Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, mae nifer o ddisgowntiau ac esemptiadau ar gael yn ôl cyfansoddiad y teulu ac a yw meini prawf penodol wedi'u bodloni – mae manylion y rhain isod. Mae'r datganiadau treth gyngor cyfanredol CT1 a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2018b) yn awgrymu:

- Bod meddianwyr sy'n gymwys i gael gostyngiad ar sail anabledd i ddibenion y dreth gyngor yn cael gostyngiad o un band ar gyfer y dreth gyngor. Os yw'r annedd o fewn Band A, y band treth gyngor isaf sydd ar gael fel arfer, dywedir bod yr annedd o fewn Band A- ar ôl cael gostyngiad ar sail anabledd. Yn 2018-19, cafwyd gostyngiad ar sail anabledd ar gyfer 11,989 o anheddau, sef llai nag 1% o'r holl anheddau trethadwy;
- Bod 494,246 (36%) o'r anheddau trethadwy yn gymwys i gael disgownt o 25%, yn bennaf am eu bod yn cael eu meddiannu gan un person. Mae 19,797 (1.4%) ychwanegol yn gymwys i gael disgownt o 50%, yn bennaf am eu bod yn gartrefi gwag tymor hir h.y. mae'r eiddo wedi bod yn wag am fwy na 6 mis;
- Er bod nifer yr anheddau sy'n gymwys i gael disgowntiau wedi cynyddu yn ystod y 10 mlynedd diwethaf (o 48,231 yn 2009-10 i 56,064, sef cynnydd o 4.9%), mae cyfran yr anheddau trethadwy cymwys sy'n cyfateb i hynny wedi aros yn weddol gyson ar oddeutu 37%.

Dylid nodi hefyd fod awdurdodau lleol wedi cael caniatâd ers Ebrill 2017 o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i godi premiwm o hyd at 100% o gyfradd safonol y dreth gyngor ar gartrefi gwag tymor hir ac ail gartrefi yn eu hardaloedd. Yn 2018-19, mae 6 awdurdod lleol yn codi premiwm cartref gwag ac mae 6 yn codi premiwm ail gartref. Ledled Cymru mae cyfanswm o 24,830 o gartrefi gwag trethadwy a 23,426 o ail gartrefi trethadwy.

Ym mhob achos, nid yw'n bosibl cael gwybod o'r data pa gyfran o'r rheini sy'n mynd i ôl-ddyled sy'n gymwys i gael y disgowntiau neu breimymau priodol. Yn yr un modd, nid ydym yn gwybod beth yw dosbarthiad yr ôl-ddyledion mewn perthynas â band treth gyngor yr annedd.

A	A vacant dwelling which requires, or is undergoing, or has undergone, major repair work to render it habitable (major repair work includes structural repair work), or is undergoing, or has undergone structural alteration. The exemption applies for no longer than: a continuous period of 12 months, or a period beginning on the day on which it became vacant, and ending six months after the day on which such work was substantially completed, whichever is the shorter. Authorities will need to serve a 'completion notice' to fix the date of substantial completion;
B	A dwelling which is owned by a charitable organisation, was last occupied for the purposes of the organisation and has been unoccupied for less than 6 months, disregarding anyone period of less than six weeks during which it was occupied.
C	A dwelling which has been vacant for a continuous period of less than 6 months. A new dwelling would fall into this category following the service of a completion notice.
D	A dwelling which is unoccupied because the owner/tenant is detained in prison etc. and the property would have been the person's sole or main residence if they had not been detained. However, provided that the dwelling was the person's previous sole or main residence the exemption would still apply if the person had been a relevant absentee for the whole period.
E	An unoccupied dwelling which was the sole or main residence of the owner or tenant and that person is a patient in a NHS or military hospital or a patient in a hostel, nursing home, mental nursing home or residential care home in England, Wales or Scotland. This category will continue to apply so long as the person remains a relevant absentee.
F	An unoccupied dwelling which has been unoccupied since the date of death where the only the qualifying person in respect of the dwelling is such by virtue of being the executor or administrator and there is no other qualifying person in any other category. This class will apply up to, and for a maximum of 6 months following, the grant of probate or letters of administration with anyone period of less than six weeks during which it was occupied being disregarded.
G	An unoccupied dwelling where occupation is prohibited by law or kept unoccupied by action taken under an Act of Parliament with a view to prohibiting occupation of the dwelling or to acquiring the dwelling.
H	A dwelling which is kept unoccupied for the purpose of being available for a minister of any religious denomination which is to be used as a residence from which to perform his duties.
I	An unoccupied dwelling which was the sole or main residence of the owner or tenant but the person is now resident in a place, which is not a hospital or home, for the purpose of receiving care etc. and the person has been a relevant absentee for the whole period.
J	An unoccupied dwelling which was the sole or main residence of the owner or tenant but that person is now in another place providing personal care to another person and, for the whole of the period, the qualifying person has been a relevant absentee.

K	An unoccupied dwelling which was last occupied only by student(s) as a sole or main residence and every qualifying person is a student and either has been a student for the whole of the period since, or become a student within 6 weeks of, the dwelling being his last sole or main residence.
L	An unoccupied dwelling which has been repossessed by the mortgagee under the terms of the mortgage.
M	A dwelling which is a hall of residence provided predominantly for the accommodation of students and is either owned or managed by a university or similar organisation (see S.I.1992/548) or a charitable body or the dwelling is subject to an agreement whereby the institution can nominate the majority of occupiers of the accommodation.
N	A dwelling which is occupied wholly by: students over 18 years; and/or a student's spouse or dependent who is not a British Citizen and is prohibited from taking employment or claiming benefits; and/or people aged under 20 years who are undertaking a qualifying course of education or a full time course of education, as their sole or main residence or as term time accommodation; during vacation periods provided that a student, or a person on a qualifying or full time course, continues to hold the freehold, leasehold or licence to occupy the dwelling and either previously used, or intends to use, the dwelling as term time accommodation then, the exemption will continue to apply.
O	A dwelling owned by the Secretary of State for Defence which is held for armed forces accommodation, other than visiting forces accommodation.
P	A dwelling where at least one person who would be liable to the council tax in respect of the dwelling is a member, or a dependant of a member, of a visiting force under Part I of the Visiting Forces Act 1952.
Q	A dwelling which is unoccupied where the person who would be liable is a trustee in bankruptcy.
R	A dwelling consisting of a pitch or a mooring which is not occupied by a caravan or boat, respectively.
S	A dwelling occupied only by a person(s) under 18.
T	An unoccupied dwelling which is part of another dwelling, e.g. annexed accommodation, that cannot be let without breaching planning control.
U	A dwelling occupied only by person(s) that are severely mentally impaired, or only occupied by person(s) that are severely mentally impaired together with students.
V	A dwelling where at least one person who would be liable to the council tax in respect of the dwelling is a diplomat, a person who would benefit from diplomatic immunity and certain members of their household. The person must not be: a British Citizen or subject; permanently resident in the United Kingdom; and have no other sole or main residence in the UK.
W	A dwelling, that is part of a single property, comprising two or more dwellings which is occupied by a dependent relative of the resident of the other dwelling.

Roedd 1,375,172 o anheddau yn agored i'r gofyniad i dalu'r dreth gyngor yng Nghymru yn 2018-19, ac roedd 57,700 o anheddau esempt ar ben hynny, a hynny'n dod i gyfanswm o

1,432,872 o anheddau (Llywodraeth Cymru, 2018b). Y categori esemptiad mwyaf cyffredin yw annedd wag a heb ddodrefn sef 17,659, wedyn anheddau myfyrwyr ar 16,555, a 5,839 o anheddau wedi'u hesemptio o ganlyniad i fod yn wag yn dilyn marwolaeth. Yn y 10 mlynedd diwethaf, mae nifer yr anheddau sydd wedi'u hesemptio rhag y dreth gyngor wedi cynyddu o 48,231 yn 2009-10 i 57,700 yn 2018-19, cynnydd o 19.6%. Mae hyn yn ganlyniad yn bennaf i gynnydd yn nifer yr unedau eiddo sy'n cael eu meddiannu'n llwyr gan fyfyrwyr.²⁴

²⁴ Ar 7 Tachwedd 2018, lansiodd yr Ysgrifennydd Cabinet ymgynghoriad ar gynigion i esemptio rhai sy'n gadael gofal rhag talu'r Dreth Gyngor tan eu pen blydd yn 25 oed. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 19 Rhagfyr 2018. Ffynhonnell: <https://beta.gov.wales/council-tax-exemptions-care-leavers>

Atodiad 4: Data am gyd-destun rhenti tai cymdeithasol yng Nghymru

Mae stoc tai landlordiaid cymdeithasol yn unedau tai (yn cynnwys fflatiau un ystafell a lleoedd gwely) sy'n eiddo'n llwyr neu'n rhannol i'r 11 awdurdod lleol sydd wedi cadw stoc ac i'r holl Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) yng Nghymru. Ar 31 Mawrth 2018, roedd 230,044 o unedau tai cymdeithasol,²⁵ nifer a oedd ychydig yn fwy (0.6%) na'r flwyddyn flaenorol. O'r rhain, roedd 62% yn eiddo i LCC a'r 38% a oedd yn weddill yn eiddo i awdurdodau lleol (Llywodraeth Cymru, 2018h).

Ledled Cymru, mae oddeutu un annedd ym mhob chwech yn cael ei rhentu gan landlord cymdeithasol (16.0% yn 2016-17). Fodd bynnag, mae'r priod gyfrannau sy'n eiddo i LCC ac awdurdodau lleol wedi newid dros amser gan fod 11 awdurdod yng Nghymru wedi trosglwyddo eu stoc yn wirfoddol i LCC rhwng Medi 2003 a Gorffennaf 2010. Fel y disgwylid, mae cyfran y stoc anheddau sy'n eiddo i landlordiaid cymdeithasol yn amrywio ar draws Cymru o tua un ym mhob pedair ar rent cymdeithasol ym Mlaenau Gwent (24.2%) a Thor-faen (24.1%) i tua un ym mhob deg yng Nghonwy (10.8%) a Cheredigion (9.5%) (Llywodraeth Cymru, 2018d).²⁶

Nid yw'r rhan helaeth o unedau tai ar renti cymdeithasol wedi'u dynodi ar gyfer defnyddwyr penodol, gan fod 89% (194,594 o unedau) at anghenion cyffredinol yn 2017-18. Roedd yr 11% (25,116) sy'n weddill yn unedau tai gwarchod annibynnol (yn cynnwys fflatiau un ystafell annibynnol) ar gyfer y rheini sydd ag anghenion penodol oherwydd oed, anabledd neu ffactor arall sy'n eu gwneud yn agored i niwed. Ar y cyfan, mae gan awdurdodau lleol gyfran fwy o unedau tai gwarchod annibynnol yn eu stoc na LCC – 12.5% o'i gymharu â 10.7% o'u holl stoc rhent cymdeithasol ar 31 Mawrth 2018.

²⁵ Mae 15,296 ychwanegol o unedau tai nad ydynt yn dai cymdeithasol yn eiddo'n llwyr neu'n rhannol i landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru ac, o'r rhain, roedd 99% yn eiddo i LCC. Mae unedau tai nad ydynt yn dai cymdeithasol yn cynnwys unedau tai sydd wedi'u gosod ar lefelau rhent canolradd lle mae'r rhenti'n uwch na'r rheini am dai rhent cymdeithasol ond yn llai na rhenti tai'r farchnad; tai rhanberchnogaeth; cynlluniau deiliadaeth hyblyg ar gyfer yr henoed; unedau tai sydd wedi'u gosod ar lefelau rhent y farchnad, 'Prynu Cartref' a thai eraill ar gyfer buddsoddi. Mae nifer bach o unedau yn eiddo i LCC a gofrestrwyd yn Lloegr. Nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad hwn.

²⁶ Codwyd y ffigurau hyn o ddogfen Llywodraeth Cymru (2018d) sy'n seiliedig ar SFR36/2018, sydd wedi'i seilio ar y datganiad blynyddol ar y Stoc Tai Cymdeithasol. Mae'r prif ffigurau yn wahanol i'r rheini a ddefnyddiwyd ar gyfer y dreth gyngor ac yn SFR91/2017. (Llywodraeth Cymru, 2017b).

Yn ogystal â hyn, roedd 10,334 o unedau tai cymdeithasol eraill a oedd y tu allan i fframwaith polisi rhenti cymdeithasol Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2018. Roedd hyn yn cynnwys 3,884 o unedau tai 'cymorth arall' a 2,169 o unedau tai 'gofal ychwanegol' sy'n cynnig mwy o ofal na 'thai gwarchod'. Mae'r 41% sy'n weddill o unedau tai cymdeithasol eraill ledled Cymru yn cynnwys 310 o fflatiau un ystafell nad ydynt yn annibynnol a 4,281 o leoedd gwely mewn hostelau nad ydynt yn annibynnol. Yng Nghasnewydd yr oedd y nifer mwyaf o fflatiau un ystafell nad ydynt yn annibynnol (59 o unedau), ac yng Nghaerdydd ac Abertawe yr oedd y niferoedd mwyaf o leoedd gwely mewn hostelau nad ydynt yn annibynnol, sef 762 a 409 o unedau yn y drefn honno (Llywodraeth Cymru, 2018f).

Amcangyfrifwyd ar gyfer diwedd Mawrth 2017 fod 98.2% o'r holl dai cymdeithasol (tai am renti cymdeithasol a thai cymdeithasol eraill) wedi'u meddiannu, ac mai dim ond 4,057 o'r 228,684 o unedau oedd yn wag. Fodd bynnag, roedd 1,312 o unedau (0.6% o'r stoc tai cymdeithasol) wedi bod yn wag am fwy na 6 mis (Llywodraeth Cymru, 2018e). Nid yw'r holl unedau gwag ar gael i'w gosod. Rhai o'r rhesymau nad yw unedau tai cymdeithasol ar gael i'w gosod yw bod yr uned yn cael ei gwella neu'n aros i gael ei gwella, neu ei bod i gael ei gwerthu neu ei dymchwel.

Mae rhenti wythnosol cyfartalog y landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru yn amrywio yn ôl y math o dai, a yw'n annibynnol neu beidio, yn ôl y math o landlord a nifer yr ystafelloedd gwely a hefyd ar sail amrywiadau lleol. Yn 2016-17 (ar ôl ei bennu ar 1 Ebrill 2016), y rhent cyfartalog am yr unedau tai cymdeithasol annibynnol sy'n eiddo i awdurdodau lleol ac yn cael eu rheoli ganddynt oedd £81.15 yr wythnos. Roedd hyn yn £2.78 yn llai na'r rhent cyfartalog am unedau LCC (£83.93 yr wythnos). Mae'r gwahaniaeth hwn yn ganlyniad yn rhannol i'r ffaith bod canran fwy o unedau eiddo 4 a 5 ystafell wely gan LCC nag sydd gan awdurdodau lleol a bod y rhent wythnosol cyfartalog am y rhain yn sicr o fod yn uwch. Y flwyddyn ddiwethaf, roedd y gwahaniaeth wedi lleihau i £2.45. Mae Tabl 3 yn cymharu'r rhenti cymdeithasol am wahanol fathau o dai ar sail y math o ddarparwr ac mae Tabl 4 yn cymharu'r rhenti wythnosol cyfartalog am stoc at anghenion cyffredinol ar sail nifer yr ystafelloedd gwely.

Tabl 3: Unedau tai cymdeithasol annibynnol yn ôl y math o dai a'r math o ddarparwr, 2016-17 a 2017-18

2016-17	Stock			Average Weekly Rent (£)		
	Local Authority	RSL	Total	Local Authority	RSL	Total
General need stock	74,698	118,572	193,270	82.53	83.90	83.37
Sheltered stock	10,956	14,206	25,162	72.71	77.20	75.23
Other supported stock	1,516	2,310	3,826	75.04	89.07	83.53
Extra care stock	25	2,132	2,157	68.65	127.03	126.32
Total stock at social rent	87,195	137,220	224,415	81.15	83.93	82.85

2017-18	Stock			Average Weekly Rent (£)		
	Local Authority	RSL	Total	Local Authority	RSL	Total
General need stock	74,970	119,624	194,594	86.07	86.96	86.62
Sheltered stock	10,748	14,368	25,116	75.92	79.96	78.21
Other supported stock	1,505	2,379	3,884	78.14	96.87	89.45
Extra care stock	25	2,144	2,169	70.72	131.70	131.00
Total stock at social rent	87,248	138,515	225,763	84.65	87.10	86.15

Ffynhonnell: Average weekly rents in self-contained stock at social rent by accommodation type, number of bedrooms and provider type. StatsWales (2018). Codwyd y data 20/8/18. Nodyn: Mae'r rhenti'n ymwneud â'r sefyllfa ar 31 Mawrth h.y. ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Tabl 4: Unedau stoc annibynnol at anghenion cyffredinol a rhenti wythnosol yn ôl nifer yr ystafelloedd gwely, 2016-17 a 2017-18

	2016-17		2017-18	
	General Needs Stock	Average Weekly Rent (£)	General Needs Stock	Average Weekly Rent (£)
1 bedrom inc bedsits	33,968	72.25	34,557	74.80
2 bedrooms	69,021	80.85	69,831	84.00
3 bedrooms	85,408	88.53	85,264	92.19
4 bedrooms	4,461	102.55	4,535	106.54
5 or more bedrooms	421	124.38	407	127.67
Total	193,279	83.37	194,594	86.62

Ffynhonnell: StatsWales (2018) Self-contained general needs and sheltered average weekly rents (used in target rent setting) by dwelling type, bedrooms and accommodation type. Codwyd y data 20/8/18. Nodyn: Mae'r rhenti'n ymwneud â'r sefyllfa ar 31 Mawrth h.y. ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Manylion yr awduron

Yr Athro Sharon Collard yw Cyfarwyddwr Ymchwil y Ganolfan Ymchwil Cyllid Personol, Prifysgol Bryste.

Mae'r **Dr Helen Hodges** yn Swyddog Ymchwil, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae'r **Dr Paul Worthington** yn Ymchwilydd Cyswllt, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Hoffai'r Athro Collard ddiolch i Michaela Giasullo a Lorna Trend am eu cymorth amhrisiadwy wrth adolygu a dadansoddi'r dystiolaeth ar gyfer yr adolygiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

+44 (0) 29 2087 5345

info@wcpp.org.uk



Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored



**Wales Centre
for Public Policy**
**Canolfan Polisi
Cyhoeddus Cymru**